# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 – Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 20 Ionawr 2020

Amser: 12.45

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddArchwilio@cynulliad.cymru

---

**(Rhag-gyfarfod preifat)**

(12.45-13.15)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.15)

## 2 Cyfoeth Naturiol Cymru

(13.15-14.45) (Tudalennau 1 - 63)

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

PAC(5)-03-20 Papur 1 – Cyfoeth Naturiol Cymru

PAC(5)-03-20 Papur 2 – Memorandwm Atodol Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (Ionawr 2020)

PAC(5)-03-20 Papur 3 – Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (13 Ionawr 2020)

Clare Pillman - Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu, Cyfoeth Naturiol Cymru

Sir David Henshaw - Cadeirydd, Cyfoeth Naturiol Cymru

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

(14.45)

Eitemau 4 & 5 o'r cyfarfod ar 27 Ionawr 2020

## 4 Cyfoeth Naturiol Cymru: trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

(14.45 - 15.15)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 5 Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Llesiant Pobl Ifanc

(15.15 - 15.30) (Tudalennau 64 - 68)

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Llesiant Pobl Ifanc

PAC(5)-03-20 Papur 4 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor at yr Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru (20 Tachwedd 2019)

PAC(5)-03-20 Papur 5 – Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru i Gadeirydd y Pwyllgor (12 Rhagfyr 2019)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Ein cyf/Our ref: CX19-GC032
Eich cyf/Your ref:

Ty Cambria,
29 Newport Road,
Cardiff,
CF24 0TP

Ebost/Email:
ChiefExecutivesOffice@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Ffôn/Phone: 0300 065 4453

Nick Ramsay AM
Chair of Public Accounts Committee

By email: seneddPAC@assembly.wales

09/12/19

Dear Nick

**Progress in implementing the recommendations of the review into timber sales**

I am writing to update you on our progress in implementing the recommendations of the Grant Thornton review into timber sales governance.

The Timber Sales Governance Project was established in January 2019 in response to the review undertaken by Grant Thornton in late 2018. The Grant Thornton report identified several key areas for NRW to improve and a project team was established to deal with these recommendations and those from the WAO management letter and the PAC report (November 2018).

The project has been structured into two phases, with workstreams established to ensure the effective delivery of the actions at pace. These workstreams are: Wider Organisation; Policies and Process; Compliance; Communications; Finance; Contract Management; ICT and Contractual Issues.

## Phase 1 - the Recovery Phase

Phase 1 has seen good progress being made across all the workstreams.

**Wider Organisation**: we have improved integrated working across corporate services through Organisation Design, recruiting to the new structure, restructuring of the internal audit function and how it works with our Audit and Risk Assurance Committee (ARAC), as well as training all staff in public law, state aid and governance.

**Policies and Process**: the project team has worked closely with the operational teams in the business to review policies and processes across the timber sales and marketing, and land management remits. This includes producing and training all forestry staff on a new set of Timber Sales Governance Standards.

**Compliance**: the team are working with staff to ensure the new policies and processes become embedded in our ways of working and are supporting staff to ensure they are

compliant with the new ways of working, as well as working closely with internal audit to implement and pursue new recommendations.

**Communications**: internal communications of the changes being made are critical to achieving the change in culture across the business. This includes the introduction of new intranet pages, internal newsletters and fortnightly briefings with staff. External communications are focused on building trust and improving relationships with the timber trade, including trade liaison sessions, bi-monthly newsletters, regular customer visits and regular meetings with Confor.

**Finance**: we have made considerable progress in developing financial forecasts based on coupe and contract level felling and marketing plans for income, harvesting costs, restocking costs and harvesting infrastructure costs. These have been incorporated into NRW's overall mid-year budget review and will be further refined during the remainder of the year. We are currently developing contract-level financial reporting of actual against forecast income and harvesting costs and expect this to be available before the end of the calendar year.

**Contract Management**: new timber sales and marketing terms and conditions have been written and introduced in the September 2019 timber e-sale for the first time. We have provided high level training on the implications of these new terms and conditions to both NRW staff and our timber customers. We have also initiated a contract management project to support with this and the Project Manager is currently scoping and scaling the project. The intention is to introduce new contract management guidance for all staff and deliver a robust training programme to improve contract management standards across all commercial contracts.

**ICT**: we have addressed the recommendations from the Grant Thornton report in the early parts of the plan and further improvements are planned for phase two of the project.

The changes already delivered include:

- Extra controls on who can approve certain sales types
- Introduction of a financial scheme of delegation structure within the system, enabling multi-level sale approval (depending on value)

Upcoming changes

- Enhancements to terms and conditions being sent automatically from the system
- More granular financial reporting

**Contractual Issues**: this workstream primarily led on the resolution of the Standing Sales Plus (SS+) concerns and the ongoing Long-Term Contracts (LTCs).

There are 34 Standing Sales Plus contracts with a restock liability. Agreements have been reached on 30 of these to terminate them and for the customers to buy themselves out of their restocking obligations. Work is ongoing to resolve the remaining 4.

There are three LTCs with issues remaining and agreements have been reached on two of these with negotiations continuing on the third.

**Timber Sales and Marketing team:** in addition to delivering the action plan, good progress has been made on recruitment to the new team structure, redesigned by the project team to provide more strategic support, working to effectively provide good governance in all areas of decision making in this area.

## Phase 2 – the Embedding Phase

Phase two commenced on 1 December 2019 and is focusing on ensuring that the business and cultural changes are embedded within the business teams for when the formal project ends in March 2020.

The work undertaken by the Polices and Process workstream and the Compliance workstream as part of Phase 1 have been handed over to the newly appointed governance role in the commercial team, and a new Skills workstream has been set up which will further look to embed the changes introduced.

## Overview and Governance

During this process an NRW Board oversight group has provided advice, scrutiny and challenge to the project. The project has also reported regularly to ARAC and the main NRW Board. We believe that we have made good progress in delivering the business changes required in the Recovery Phase of the project.

We have also had regular external reviews of progress, by Grant Thornton in July 2019 and more recently by Wales Audit Office. Both have concluded that we have made good progress on delivering our action plan, but that it will take time for all the improvements to fully embed throughout the business. Phase 2 is now focused on embedding these changes within the new teams in the business to ensure that the timber sales governance issues are not repeated in the future and robust frameworks to include tight compliance and checking are maintained.

I look forward to updating you further at our next evidence session on 20 January 2020.

Best wishes

Clare Pillman
**Prif Weithredwr, Cyfoeth Naturiol Cymru**
**Chief Executive, Natural Resources Wales**

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Memorandwm Atodol Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

## Contractau Gwerthu Pren a ddyfarnwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1382A2019-20

Rwyf wedi paratoi'r memorandwm hwn ar gyfer Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gefnogi wrth ystyried fy adroddiad o dan Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 ar ddatganiadau ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019.

# Cynnwys

Memorandwm Atodol – Contractau Gwerthu Pren a ddyfarnwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)

Crynodeb ........................................................................................................................4

Rhesymau dros fy amod ar fy marn ar reoleidd-dra ..........................................................8

Methu â dangos rheswm da dros fynd yn groes i bolisi CNC.............................................9

Methu â chydymffurfio â gofynion Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 ..................12

Methu â dangos bod yr holl ystyriaethau perthnasol wedi'u hystyried wrth ddyfarnu contractau gwerthu sefydlog a mwy ..................................................................................13

Methu â chydymffurfio â Chynllun Dirprwyo CNC ............................................................16

Methu â chyfeirio gweithgareddau a chynigion anarferol, dadleuol a/neu adleisiol i Lywodraeth Cymru.........................................................................................................17

Methu â chydymffurfio ag Erthygl 8 o Orchymyn Sefydlu CNC........................................19

Atodiad 1 – Datblygiad, gweithrediad a chyflawniad contractau Gwerthu Sefydlog a Mwy gan CNC o 2015 hyd heddiw...........................................................................................23

Atodiad 2 – Crynodeb o'r contractau gwerthu sefydlog a mwy a ddyfarnwyd gan CNC o 2015 hyd heddiw fesul blwyddyn ariannol .........................................................................32

# Memorandwm Atodol – Contractau Gwerthu Pren a ddyfarnwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru

## Crynodeb

1 Rhoddodd fy rhagflaenydd fel Archwilydd Cyffredinol amod ar ei farn ar gyfrifon 2015-16 a 2016-17 CNC oherwydd nad oedd wyth o'r contractau gwerthu pren hirdymor rhyng-gysylltiedig â gweithredydd melin lifio yn cydymffurfio â fframwaith awdurdod yr oedd CNC yn gweithredu oddi tano. Yn ogystal â hyn, ar sail yr wybodaeth a roddwyd iddo gan CNC am ei weithdrefn gwneud penderfyniadau, nid oedd yn gallu bod yn fodlon bod y penderfyniad i gytuno'r contractau hynny yn gyfreithlon ac nad oedd yn cynnwys darpariaeth Cymorth Gwladwriaethol.

2 Ym mis Gorffennaf 2018, rhoddodd fy rhagflaenydd amod ar ei farn ar reoleidd-dra cyfrifon 2017-18 CNC oherwydd nad oedd dyfarniad CNC o 59 o gontractau gwerthu i dri chwmni yn cydymffurfio â fframwaith awdurdod yr oedd CNC yn gweithredu oddi tano. Yn ogystal â hyn, ar sail yr wybodaeth a roddwyd iddo gan CNC am ei weithdrefn gwneud penderfyniadau, nid oedd yn gallu bod yn fodlon bod y penderfyniad i gytuno'r contractau hynny yn gyfreithlon ac nad oedd yn cynnwys darpariaeth Cymorth Gwladwriaethol.

3 Eleni, rwyf wedi rhoi amod ar fy marn ar reoleidd-dra cyfrifon 2018-19 CNC. Mae hyn yn ymwneud â 79 o gontractau a elwir yn gontractau Gwerthu Sefydlog a Mwy a gyfunodd gwerthiannau pren ag ymgymryd â gwaith peirianneg sifil ac ailstocio safleoedd cwympo coed. Ar 31 Mawrth 2019, cafodd CNC incwm o £6.3 miliwn mewn cysylltiad â'r contractau hyn a disgwylir incwm ychwanegol o £4.9 miliwn yn 2019-20. Mae fy rhesymau dros fy amod ar fy marn ar reoleidd-dra datganiadau ariannol 2018-19 CNC wedi'u nodi ym mharagraff 12.

4 Yn gynnar yn 2016, cyhoeddodd CNC Ddatganiad Marchnata Pren Interim (y Datganiad Marchnata) yn nodi dull CNC o farchnata pren o'r ystâd coedwigoedd a choetiroedd sy'n eiddo i'r cyhoedd yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill 2016 hyd 31 Mawrth 2017. Nododd y Datganiad Marchnata y byddai CNC yn gwerthu oddeutu 150,000m$^3$ obs (dros risgl yn sefyll) o'r 325,000m$^3$ obs o gyfaint pren sylfaenol i'w gynnig ar y farchnad agored gan ddefnyddio dull gwerthu newydd[1].

5 O dan y dull newydd, yn ogystal â chynaeafu'r pren a brynwyd, byddai'n ofynnol i gwsmeriaid wneud gwaith seilwaith peirianneg sifil ar safle'r gwerthiant a gallai hefyd fod yn ofynnol iddynt ailstocio'r safle dan sylw. Yn draddodiadol, roedd CNC naill ai wedi gwneud y gwaith peirianneg sifil ac ailstocio ei hun, neu ddyfarnu contractau ar wahân i gontractwyr allanol i wneud y gwaith.

[1] Mae un dunnell o bwysau o bren meddal yn hafal i gyfaint o ryw 1.24 metr ciwbig obs

6 Yn ystod blwyddyn ariannol 2016-17, dechreuodd CNC ddyfarnu contractau a oedd yn cyfuno gwerthiannau pren â gwaith peirianneg sifil ac, mewn rhai achosion, ailstocio. Yn ddiweddarach, dechreuodd CNC gyfeirio at y math newydd hwn o gontract yn werthiannau sefydlog a mwy. Hysbysebwyd y cyfleoedd contract gwerthu sefydlog a mwy drwy system e-Werthiannau Pren, a gofynnwyd i bobl gyflwyno pris cyfartalog y byddent yn fodlon ei dalu fesul tunnell o bren gan ystyried y gofyniad i gynaeafu'r pren, gwneud gwaith peirianneg sifil ac ailstocio'r safle pan fyddai hynny'n berthnasol.

7 Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd CNC Gynllun Marchnata Pren yn nodi ei ddull o werthu pren yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill 2017 hyd 31 Mawrth 2022. Dywedodd y Cynllun y byddai CNC yn gwerthu 'rhaglen hyblyg sylfaenol blynyddol o 150,000$m^3$ obs a fydd yn cael ei gynnig fel dull gwerthu traddodiadol neu 'amodol', i gael ei adnabod fel gwerthiannau sefydlog a mwy.'

8 Nododd y Cynllun Marchnata Pren hefyd lle mae CNC "yn treialu ffyrdd newydd o weithio, fel cynnig gwerthiannau fel coed 'gwerthiannau sefydlog a mwy', byddwn yn asesu perfformiad yn ofalus i wneud yn siŵr eu bod yn gallu sicrhau'r canlyniadau yr ydym yn chwilio amdanynt, yn cynnig gwerth da am arian a manteision i gwsmeriaid. Ni fydd unrhyw gyfaddawdu o ran perfformiad yn unol â safonau coedamaeth, amgylchedd, ac iechyd a diogelwch cadarn."

9 Yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill 2016 hyd 31 Rhagfyr 2018, dyfarnodd CNC 83 o gontractau gwerthu sefydlog a mwy, a daeth 79 ohonynt i rym. Roedd yr holl gontractau a aeth yn eu blaenau yn cynnwys gofyniad i'r cynigiwr llwyddiannus wneud gwaith peirianneg sifil ac roedd 44 o'r contractau yn cynnwys gofyniad i ailstocio.

10 Yn dilyn penderfyniad fy rhagflaenydd i roi amod ar ei farn ar reoleidd-dra datganiadau ariannol 2017-18 CNC, penderfynodd Prif Weithredwr CNC, wedi'i gefnogi gan Fwrdd CNC, gomisiynu Grant Thornton i gynnal adolygiad annibynnol o drefniadau llywodraethu CNC o werthiannau pren.

11 Cynhaliodd Grant Thornton adolygiad helaeth a nododd bryderon sylweddol ynghylch datblygiad, gweithrediad a rheolaeth contractau gwerthu sefydlog a mwy. Pan godwyd ymwybyddiaeth CNC o ganfyddiadau'r adolygiad a oedd yn dod i'r amlwg, cymerodd gamau ar unwaith i atal dyfarniad o unrhyw gontract gwerthu sefydlog a mwy arall.

12 Fel y nodir ym mharagraffau 17 i 23, yn rhan o fyd adroddiad ar gyfrifon CNC, rwy'n ystyried rheoleidd-dra'r trafodiadau sydd wedi'u cynnwys yng nghyfrifon CNC. Felly ystyriais reoleidd-dra'r trafodiadau a oedd wedi'u cynnwys yn natganiadau ariannol 2018-19 CNC o ran contractau gwerthu sefydlog a mwy. Nid oeddwn yn gallu bod yn fodlon ynghylch rheoleidd-dra y trafodiadau hyn felly rhoddais amod priodol ar fy marn ar reoleidd-dra. Yn y memorandwm atodol hwn rwyf wedi nodi'r rhesymau dros fy amod. Sef:

a) Aeth CNC yn groes i'w bolisi ei hun a nodwyd yn ei Gynllun Marchnata Pren 2017-22 a gyhoeddwyd, gan iddo fethu â bodloni'r ymrwymiad a nodwyd yn y Cynllun hwnnw i asesu perfformiad gwerthiannau sefydlog a mwy fel ffordd

newydd o weithio. Hefyd, ni wnaeth CNC gydymffurfio â’i reolau caffael ei hun wrth gaffael gwaith peirianneg sifil a gwasanaethau ailstocio yn rhan o’r contractau gwerthu sefydlog a mwy (gweler paragraffau 24 i 36).

b) Mae’n ofynnol i CNC gydymffurfio â rheolau caffael yr UE fel y nodir yn neddfwriaeth y DU yn Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (Rheoliadau 2015). Rwyf i o’r farn na wnaeth CNC ddilyn y drefn briodol i fod yn fodlon bod ei weithredoedd yn cydymffurfio â Rheoliadau 2015. Canfûm na wnaeth CNC geisio amcangyfrif gwerthoedd caffael contractau gwerthu sefydlog a mwy cyn hysbysebu’r cyfleoedd contract hyn yn unol â gofyniad Rheoliadau 2015, ac o’r herwydd ni all CNC ddangos erbyn hyn ei fod wedi dilyn y gweithdrefnau y mae’n rhaid i gyrff cyhoeddus eu dilyn cyn dyfarnu contractau i brynu cyflenwadau, gwasanaethau neu waith uwchlaw trothwyon ariannol (gweler paragraffau 37 i 40).

c) Mae cyfraith gyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried yr holl ystyriaethau perthnasol ac anwybyddu’r ystyriaethau amherthnasol wrth wneud penderfyniadau. Un ffordd y gall cyrff cyhoeddus ddangos eu bod wedi cydymffurfio â’r egwyddor hon yw trwy gofnodi’n llawn yr ystyriaethau y maent wedi’u hystyried. Methodd CNC â chofnodi’n briodol y broses gwneud penderfyniadau a arweiniodd at ei benderfyniad i gyflwyno’r contractau gwerthu sefydlog a mwy. Felly mae gen i amheuaeth sylweddol ynghylch a ystyriodd CNC yr holl ystyriaethau perthnasol ac anwybyddu’r ystyriaethau amherthnasol wrth wneud penderfyniadau ar werthiannau sefydlog a mwy (gweler paragraffau 40 i 58).

ch) Lluniodd Bwrdd CNC Gynllun Dirprwyo o dan ddarpariaethau Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 (y Gorchymyn). Mae’r Cynllun Dirprwyo yn rhoi pwerau dirprwyedig i swydd-ddeiliaid penodol CNC i gytuno contractau gwerthu pren ar ran CNC. Archwiliodd fy archwilwyr 13 o gontractau gwerthu sefydlog a mwy i sicrhau eu bod wedi’u hawdurdodi yn unol â’r Cynllun Dirprwyo Ariannol a chanfod bod 6 o’r contractau hyn wedi’u hawdurdodi gan swyddogion CNC nad oedd ganddynt y ddirprwyaeth angenrheidiol i awdurdodi dyfarniad contractau am y gwerth a gymeradwywyd. Cyfanswm gwerth y contractau a oedd yn rhan o’r prawf sampl nad oeddent wedi’u hawdurdodi’n briodol oedd £2,405,375. Archwiliodd fy archwilwyr 10 o estyniadau i gontractau gwerthu sefydlog a mwy a ddyfarnwyd gan CNC a chanfod bod 4 o’r rhain wedi’u hawdurdodi gan swyddogion CNC nad oedd ganddynt y ddirprwyaeth angenrheidiol i awdurdodi’r estyniadau hyn (gweler paragraffau 59 i 67).

d) Mae’n ofynnol i CNC gydymffurfio â’i Ddogfen Fframwaith a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, sydd ar y cyd yn ei gwneud yn ofynnol i CNC gyfeirio i Lywodraeth Cymru unrhyw gynigion anarferol, dadleuol a/neu adleisiol. Rwyf i o’r farn bod y cynnig i gyflwyno contractau gwerthu sefydlog a mwy yn anarferol, yn ddadleuol a/neu adleisiol. Er y rhoddodd CNC wybod i Lywodraeth Cymru am ei fwriad i gyflwyno ‘dull hyblyg’ newydd o werthu pren,

ni wnaeth ei gyfeirio'n ffurfiol i Lywodraeth Cymru yn unol â'r gofyniad (gweler paragraffau 68 i 73).

dd) Mae Erthygl 8 o Orchymyn Sefydlu CNC yn datgan wrth ystyried pa un ai arfer unrhyw bŵer a roddwyd iddo neu beidio, drwy unrhyw ddeddfiad neu o dan unrhyw ddeddfiad, y mae'n rhaid i CNC ystyried costau a buddion tebygol yn sgil arfer neu beidio ag arfer y pŵer hwnnw. Rwyf hefyd o'r farn na ystyriodd CNC yn briodol gost a buddion defnyddio dull prisio cyfartalog mewn contractau gwerthu sefydlog a mwy, ac oherwydd y ffordd y mae'r dull prisio yn gweithio, ni all CNC ddangos ei fod wedi gwerthu pren ar gyfraddau'r farchnad. Rwy'n amau'n sylweddol felly a yw CNC wedi cydymffurfio â gofynion ei Orchymyn Sefydlu. (gweler paragraffau 74 i 87).

13 O ganlyniad i'r materion a nodir ym mharagraff 12, rwy'n amau yn sylweddol a yw CNC wedi gweithredu yn unol â'i ddyletswyddau statudol, egwyddorion cyfraith gyhoeddus a rheoliadau caffael cyhoeddus.

14 Mae'r adroddiad hwn yn amlygu pryderon difrifol ynghylch trefniadau gwneud penderfyniadau CNC o ran cyflwyno a rheoli contractau gwerthu sefydlog a mwy. Hon yw'r bedwaredd flwyddyn yn olynol y mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi bod o'r farn bod angen rhoi amod ar ei farn ar reoleidd-dra datganiadau ariannol CNC oherwydd pryderon ynghylch y contractau gwerthu pren. Mae'r adroddiad hwn yn enghraifft arall sy'n amlygu diffygion difrifol yn y modd y mae CNC wedi rheoli ei swyddogaeth gwerthu pren yn hanesyddol. Mae hefyd yn amlygu y bu diffyg goruchwyliaeth gorfforaethol effeithiol o'r swyddogaeth hon.

15 Er bod trafodiadau sy'n ymwneud â chontractau gwerthu sefydlog a mwy wedi'u cynnwys yn natganiadau ariannol 2018-19 CNC, (a byddant wedi'u cynnwys hefyd yn natganiadau ariannol 2019-20), mae'r materion y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn yn bennaf o ganlyniad i benderfyniadau hanesyddol. Gwnaed y penderfyniad gwreiddiol i gyflwyno gwerthiannau sefydlog a mwy yn 2016. Ers hynny, gwnaed llawer o benodiadau newydd i lefel y Bwrdd ac uwch-reolwyr. Mae hyn yn cynnwys penodi Cadeirydd newydd a Phrif Weithredwr newydd. Mae'n galonogol i mi weld ymdrechion CNC yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i ddechrau mynd i'r afael â rhai o'r materion hanesyddol sydd wedi tanseilio enw da CNC ac wedi amharu ar ei effeithiolrwydd. Mae'n berthnasol y tynnwyd sylw at bryderon ynghylch contractau gwerthu sefydlog a mwy gan adolygiad a gomisiynwyd gan CNC ei hun i'w drefniadau llywodraethu o'i werthiannau pren. Rwy'n cydnabod y cymerodd CNC gamau ar unwaith i fynd i'r afael â'r pryderon hyn pan dynnwyd ei sylw atynt.

16 Mae Atodiad 1 yn nodi cronoleg fanwl o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â dyfarnu'r contractau. Mae Atodiad 2 yn rhoi manylion yr holl gontractau gwerthu sefydlog a mwy a ddyfarnwyd gan CNC yn 2016-17, 2017-18 a 2018-19.

# Rhesymau dros fy amod ar fy marn ar reoleidd-dra

17 O dan Erthygl 23(5) o Orchymyn Sefydlu CNC 2012 (y Gorchymyn), mae'n ofynnol i mi:

- archwilio ac ardystio'r datganiad o gyfrifon CNC ac adrodd arno;
- rhoi copi o'r datganiad ardystiedig o gyfrifon, ynghyd â fy adroddiad arno i CNC; ac
- heb fod yn hwyrach na 4 mis ar ôl i'r datganiad o gyfrifon gael ei gyflwyno, gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru gopi o'r datganiad ardystiedig o gyfrifon a fy adroddiad.

18 Yn ogystal ag ardystio bod y datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru ar 31 Mawrth 2019, rwy'n rhoi barn ar reoleidd-dra yn ardystio ym mhob agwedd berthnasol bod y gwariant a'r incwm a ddangosir yn y datganiadau ariannol wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodiadau ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

19 Wrth roi fy marn ar reoleidd-dra, rwy'n ffurfio barn ar a yw CNC wrth arfer ei swyddogaethau wedi:

- gweithredu o fewn ei gylch gwaith statudol;
- cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol;
- gweithredu yn unol ag egwyddorion cyfraith gyhoeddus; a
- chydymffurfio â'r fframwaith awdurdod sy'n ei lywodraethu, e.e. darpariaethau Dogfen Fframwaith CNC a chyfarwyddiadau gweinidogol a roddir o dan Erthygl 11 o'r Gorchymyn.

20 Mae fy marn ar reoleidd-dra ar ffurf sicrwydd cadarnhaol, sy'n golygu fy mod i'n datgan a yw trafodiadau yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Pan fo ansicrwydd sylweddol bod trafodiadau yng nghyfrifon CNC yn afreolaidd a/neu'n anghyfreithlon, ni allaf roi barn eglur ar reoleidd-dra y cyfrifon. Mae hyn oherwydd na ellir rhoi sicrwydd rhesymol pan fo ansicrwydd sylweddol.

21 Rwyf yn amau a yw CNC wedi gweithredu yn unol â'i ddyletswyddau statudol ac egwyddorion cyfraith gyhoeddus wrth ddyfarnu contractau gwerthu sefydlog a mwy yn 2016-17, 2017-18 a 2018-19. O ganlyniad i hyn, ni allaf gadarnhau yn bositif a yw'r trafodiadau yn natganiadau ariannol 2018-19 CNC yn cydymffurfio â'r fframwaith awdurdod sy'n eu llywodraethu. Felly rwyf wedi rhoi amod priodol ar fy marn ar reoleidd-dra.

22 Fodd bynnag, nid yw penderfyniad yn anghyfreithlon oni bai a hyd nes ei fod wedi'i ddatgan yn anghyfreithlon gan lys. Felly, yn absenoldeb her gyfreithiol, mae'r contractau yn parhau i fod yn ddilys ac yn orfodadwy.

23 Rwyf wedi nodi yn yr adrannau canlynol yr ystyriaethau yr wyf wedi'u hystyried wrth gyrraedd fy mhenderfyniad i roi amod ar fy marn ar reoleidd-dra datganiadau ariannol 2018-19 CNC.

# Methu â dangos rheswm da dros fynd yn groes i bolisi CNC

## Methu â chydymffurfio â Chynllun Marchnata Pren 2017-2022

24 Er mwyn i benderfyniad corff cyhoeddus fod yn gyfreithlon, mae'n rhaid ei wneud yn unol â deddfwriaeth berthnasol ac egwyddorion cyfraith gyhoeddus. Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus (a) ystyried a (b) dilyn polisïau perthnasol, oni bai bod ganddynt reswm da dros fynd yn groes iddynt. Dylen nhw o leiaf fod wedi datgan rhesymau clir dros fynd yn groes. Gall methu â gwneud hynny olygu bod penderfyniad, ac felly eitem yn y cyfrifon, yn mynd yn groes i'r gyfraith. Mae cyfraith gyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i ategu unrhyw resymau.

25 Ym mis Ionawr 2016, cymeradwyodd Bwrdd CNC Ddatganiad Marchnata Pren Interim (y Datganiad) yn nodi ei ddull o gynaeafu a marchnata pren o Ystad Goed Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod hwn o 1 Ebrill 2016 hyd 31 Mawrth 2017. Cyhoeddwyd y ddogfen ar wefan CNC. Cyn hyn, roedd CNC wedi cynnig pren i'r farchnad naill ai ar ffurf coed wedi'u cwympo ar ochr y ffordd neu drwy werthu pren yn sefyll pan fyddai'r prynwr yn gyfrifol am gynaeafu'r pren. Cyflwynodd y Datganiad ddull ychwanegol o werthu pren. Nododd y byddai rhyw 150,000m$^3$ obs (dros risgl yn sefyll) o gyfaint pren yn cael ei werthu ar farchnad agored trwy ddull Gwerthiannau Sefydlog heb fod cyfleusterau cynaeafu a seilwaith ar waith. Bydd y parseli gwerthiannau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r prynwr gyflawni'r holl ofynion angenrheidiol ar gyfer arfer coedwigaeth da fel y nodir yn Safon Coedwigaeth y DU, safon peirianneg sifil lleiaf ac sy'n cydymffurfio â Rheoliadau Adeiladu Dylunio a Rheoli 2015 a fydd yn cael eu nodi'n benodol ym manylion y gwerthiant unigol. Ar gyfer y parseli hyn byddwn hefyd yn ystyried ceisiadau i ailstocio ardaloedd cwympo coed i safonau cynllun ailblannu penodol. Wedi hynny enwodd CNC y dull newydd hwn a oedd yn cyfuno gwerthiant pren sy'n sefyll â gofyniad ar y prynwr i wneud gwaith peirianneg sifil ac mewn rhai achosion, ailstocio safleoedd cwympo coed, yn Werthiannau Sefydlog a Mwy.

26 Yn ystod y flwyddyn ariannol 2016-17 dyfarnwyd 10 o gontractau gwerthu sefydlog a mwy a daeth 8 o'r rhain i rym, gan arwain at werthu 28,219 m$^3$ obs o bren. Dywedodd swyddogion CNC wrth fy archwilwyr y cyflwynwyd y contractau gwerthu sefydlog a mwy yn ystod 2016-17 ar ffurf cynllun treialu i brofi'r farchnad, a bwriad CNC oedd cynnal gwerthusiad o'r math hwn o werthu yn ystod y cyfnod treialu.

27 Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd CNC Gynllun Marchnata Pren 2017-2022. Yn ei hanfod, polisi yw'r cynllun sy'n nodi sut y bydd CNC yn marchnata pren. Nododd y Cynllun Marchnata Pren fod CNC yn treialu ffordd newydd o weithio o'r enw Gwerthiannau Sefydlog a Mwy. Byddai'r ffordd newydd hon o weithio yn cynnwys gwerthu pren "ar sail Gwerthiannau Sefydlog marchnad agored heb gyfleusterau a seilwaith cynaeafu ar waith. Ar gyfer y parseli hyn byddwn hefyd yn ystyried ceisiadau i ailstocio ardaloedd cwympo coed i safonau cynllun ailblannu penodol. Er yr ystyriwyd bod gwerthiannau sefydlog a mwy yn "ffordd newydd o weithio" fel y

nodir ym mharagraffau 25 a 26, roedd y dull gwerthu hwn wedi'i ddefnyddio eisoes yn y flwyddyn ariannol 2016-17.

28 Ym mis Tachwedd 2016, ysgrifennodd CNC at Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig yn Llywodraeth Cymru yn nodi y byddai'n sefydlu proses asesu ac adolygu ffurfiol o'r cynllun treialu i ddarparu sicrwydd bod y gwerthiannau sefydlog a mwy yn bodloni'r canlyniadau y mae CNC yn eu dymuno, yn darparu gwerth am arian ac yn cyflawni ei rwymedigaethau amgylcheddol, iechyd a diogelwch, (Gweler Atodiad 1, paragraffau 1.21 i 1.22).

29 Roedd ymrwymiad CNC i werthuso'r cynllun treialu fel y nodir yn y Cynllun Marchnata Pren yn hollbwysig oherwydd heb asesiad o'r fath nid oedd CNC yn gallu dangos ei fod yn cyflawni ei rwymedigaeth gyfreithiol o dan Erthygl 8 o'u Orchymyn Sefydlu i ystyried costau a buddion tebygol y defnydd parhaus o gontractau gwerthu sefydlog a mwy (gweler paragraffau 74 i 77). Roedd angen y gwerthusiad i bennu'r effaith yr oedd gwerthiannau sefydlog a mwy yn ei chael ar gystadleuaeth yn y farchnad (gweler paragraffau 43 i 46) ac a oedd y gwerthiannau sefydlog a mwy yn helpu i gyflawni amcanion strategol CNC.

30 Nid yw CNC wedi gallu dangos unrhyw dystiolaeth i fy archwilwyr ei fod wedi cynnal gwerthusiad ffurfiol o'r dull gwerthu sefydlog a mwy fel yr ymrwymodd i'w wneud yn y Cynllun Marchnata Pren, ac fel y dangosir yn Atodiad 2, Tabl 5, ehangodd ei ddefnydd o werthiannau sefydlog a mwy yn ystod y flwyddyn ariannol 2018-19 heb gynnal gwerthusiad o'r fath.

31 Rwyf o'r farn bod CNC wedi methu â dangos bod ganddo reswm da dros fynd yn groes i'r ymrwymiad yn y Cynllun Marchnata Pren i werthuso cynllun treialu'r gwerthiannau sefydlog a mwy. Felly nid wyf yn fodlon bod CNC wedi cydymffurfio ag egwyddorion cyfraith gyhoeddus trwy barhau ac ymestyn y defnydd o werthiannau sefydlog a mwy heb werthuso'r cynllun treialu.

## Methu â chydymffurfio â pholisi caffael CNC

32 Mae CNC wedi sefydlu rheolau sy'n llywodraethu sut y bydd yn caffael gwaith, nwyddau a gwasanaethau. Mae'r gweithdrefnau hyn wedi'u nodi yn ei 'Cyfarwyddyd Caffael - Crynodeb o'r gofynion Rheoleiddio a Pholisi ar gyfer Caffael gwerth £25,000 neu fwy yn CNC' (Cyfarwyddyd Caffael). Mae'r Cyfarwyddyd Caffael yn nodi sut y mae'n rhaid trin pryniannau gwerth £25,000 neu fwy ac yn datgan bod yn rhaid i'r holl aelodau staff ddilyn rheolau caffael CNC. Mae'n rhaid rhoi cyfiawnhad llawn dros unrhyw wyro o'r Rheolau Caffael ac mae'n rhaid awdurdodi unrhyw wyro ar lefel y Pennaeth Caffael neu'r Rheolwr Caffael. Mae'n rhaid adrodd unrhyw gamau y gellid ystyried nad ydynt yn cydymffurfio â'r Rheolau i Reolwr Caffael neu'r Pennaeth Caffael.

33 Mae'r Cyfarwyddyd Caffael yn nodi bod yn rhaid i Dîm Caffael CNC gyflawni unrhyw achos o gaffael gwerth £25,000 neu fwy. Yn ystod 2018-19, amcangyfrifodd swyddogion CNC fod o leiaf 16 o'r 43 o gontractau gwerthu sefydlog a mwy a ddyfarnwyd gan CNC yn cynnwys gwerthoedd caffael dros £25,000. Fel y nodir ym

mharagraff 25, contractau cymysg yw contractau gwerthu sefydlog a mwy sy'n cyfuno gwerthu pren â chaffael gwaith peirianneg sifil ac mewn rhai achosion, caffael gwasanaethau ailstocio. Roedd y Cyfarwyddyd Caffael yn berthnasol i gontractau cymysg. Mae Tîm Caffael CNC wedi dyfarnu contractau fframwaith yn gystadleuol i'w defnyddio i gaffael gwaith peirianneg sifil a gwasanaethau ailstocio. Fodd bynnag, ni ddefnyddiwyd y contractau fframwaith hyn i gaffael y gwaith peirianneg sifil a gwasanaethau ailstocio yn y contractau gwerthu sefydlog a mwy. Is-adran Gwerthiannau Pren CNC gynhaliodd y prosesau hysbysebu a dyfarnu ar gyfer contractau gwerthu sefydlog a mwy ac nid oedd Tîm Caffael CNC yn rhan o'r prosesau o gwbl. O ganlyniad i hyn, ni wnaeth CNC gydymffurfio â'i bolisi caffael ei hun.

34 Nid yw fy archwilwyr wedi gweld llawer o dystiolaeth bod swyddogion yn Is-adran Gwerthiannau Pren CNC wedi cydnabod bod contractau gwerthu sefydlog a mwy yn cynnwys caffael gwaith ac mewn rhai achosion gwasanaeth a bod y contractau hyn yn destun polisïau caffael CNC a rheoliadau caffael cyhoeddus. Fodd bynnag, mae nodiadau cydoesol a gadwyd gan Gyfarwyddwr Gweithredol Cymdeithas Cynnyrch Coedwigoedd y DU o gyfarfod a gynhaliwyd â Phennaeth Gweithrediadau Masnachol CNC ar y pryd a Phennaeth Cynaeafu CNC ar 10 Mai 2017 yn cofnodi y dywedodd swyddogion CNC wrtho y cafwyd materion caffael o ran gwerthiannau sefydlog a mwy (Atodiad 1, paragraff 1.31).

35 Mae'r Cyfarwyddyd Caffael yn nodi gofynion CNC ar gyfer caffael cyflenwadau, gwasanaethau a gwaith gwerth £25,000 neu fwy, gan gynnwys:

- mae'n rhaid amcangyfrif gwerth caffael cyfleoedd contract cyn hysbysebu cyfleoedd caffael. Ar gyfer contractau cymysg, mae'r weithdrefn gaffael i'w defnyddio i gael ei seilio ar yr elfen â'r gost uchaf a amcangyfrifwyd, h.y. yn achos gwerthiannau sefydlog a mwy mae'n ofynnol amcangyfrif gwerth gwaith peirianneg sifil a gwasanaethau ailstocio ar wahân a bydd gwerth uchaf hyn yn pennu'r weithdrefn i'w dilyn. Ni welodd fy archwilwyr unrhyw dystiolaeth bod CNC wedi ceisio amcangyfrif gwerthoedd ar wahân y gwaith a'r gwasanaethau i'w caffael mewn contractau gwerthu sefydlog a mwy, (â'r diben o bennu'r weithdrefn gaffael i'w dilyn) cyn hysbysebu cyfleoedd contractau gwerthu sefydlog a mwy. Felly rwyf o'r farn na ddilynwyd y gofyniad hwn o'r Cyfarwyddyd Caffael.
- Mae'r Cyfarwyddyd Caffael yn nodi bod yn rhaid hysbysebu contractau caffael gwerth £25,000 neu fwy yn agored ar GwerthwchiGymru (porth caffael a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru), a bod yn destun proses dendro â cheisiadau wedi'u selio. Ni hysbysebwyd contractau gwerthu sefydlog a mwy ar GwerthwchiGymru. Fodd bynnag, cawsant eu hysbysebu ar borth e-Werthiannau Pren a ddefnyddir gan CNC i hysbysebu ei gyfleoedd gwerthu pren. Rwy'n cydnabod y gallai fod gan CNC reswm da dros hysbysebu'r cyfleoedd hyn ar borth e-Werthiannau Pren, h.y. roedd contractau gwerthu sefydlog a mwy yn cynnwys gwerthu pren a byddai prynwyr pren yn chwilio am gyfleoedd i brynu ar borth e-Werthiannau Pren. Fodd bynnag, nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth mewn dogfennau bod CNC wedi ystyried sut y dylid hysbysebu contractau gwerthu sefydlog a mwy o ystyried eu bod yn werthiannau ac yn gontractau caffael cymysg. Felly rwyf o'r farn bod CNC

wedi gweithredu'n groes i'r gofyniad hysbysebu yn y Cyfarwyddyd Caffael heb ofyn am y gymeradwyaeth ysgrifenedig ofynnol gan Bennaeth Caffael neu Reolwr Caffael CNC i wneud hynny, (gweler paragraff 32). Nid yw CNC wedi gallu dangos bod ganddo reswm da dros fynd yn groes i ofynion ei bolisi caffael ei hun wrth gaffael gwaith a gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys mewn contractau gwerthu sefydlog a mwy. Felly rwy'n amau'n sylweddol a yw CNC wedi cydymffurfio ag egwyddorion cyfraith gyhoeddus wrth gaffael y contractau hyn.

## Methu â chydymffurfio â gofynion Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015

36 Mae'n ofynnol i CNC gydymffurfio â rheolau caffael yr UE. Mae'r rheolau dros lywodraethu dyfarniad contractau ar gyfer nwyddau, gwaith a gwasanaethau wedi'u cynnwys yng nghyfraith y DU trwy Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (Rheoliadau 2015). Mae contractau gwerthu sefydlog a mwy yn cynnwys gwerthiannau pren a chaffael, felly maent wedi'u cynnwys yng nghwmpas Rheoliadau 2015.  Mae Rheoliadau 2015 yn nodi gweithdrefnau y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus eu dilyn cyn dyfarnu contractau i brynu cyflenwadau, gwasanaethau neu waith gwerth mwy na'r trothwyon ariannol a ddiffiniwyd. Mae Rheoliadau 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus amcangyfrif gwerth contract ar yr adeg yr anfonir galwad i gystadlu. Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod CNC wedi ceisio amcangyfrif gwerth yr elfennau peirianneg sifil ac ailstocio contractau gwerthu sefydlog a mwy i benderfynu a oedd yr amcangyfrif o werthoedd caffael y contractau hyn yn uwch na throthwy ariannol Rheoliadau 2015. Felly rwyf o'r farn na wnaeth CNC gydymffurfio â gofynion Rheoliadau 2015 ac felly bod y dyfarniad contractau gwerthu sefydlog a mwy a'r trafodiadau cysylltiedig sydd wedi'u cynnwys yn natganiadau ariannol 2018-19 CNC yn afreolaidd.

37 Mae CNC wedi amcangyfrif yn ôl-weithredol bod gwerth caffael yr elfennau gwaith a gwasanaethau o'r contractau gwerthu sefydlog a mwy a ddyfarnwyd ganddo yn is na'r trothwyon a nodwyd yn Rheoliadau 2015. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, roedd yn ofynnol i gynigwyr am gontractau gwerthu sefydlog a mwy gyflwyno ceisiadau ar sail pris cyfartalog ar gyfer gwerthiannau pren, gwaith peirianneg sifil a gwasanaethau ailstocio.  Gan na chafodd yr elfennau unigol hyn eu prisio ar wahân yn y broses gynnig, nid wyf yn fodlon â'r wybodaeth a roddwyd gan CNC bod gwerth caffael yr holl gontractau gwerthu sefydlog a mwy yn is na throthwy perthnasol Rheoliadau 2015.

38 Felly rwyf o'r farn bod y dyfarniad contractau gwerthu sefydlog a mwy a'r trafodiadau sydd wedi'u cynnwys yn natganiadau ariannol 2018-19 CNC o ran y contractau hyn yn afreolaidd.

# Methu â dangos bod yr holl ystyriaethau perthnasol wedi'u hystyried wrth ddyfarnu contractau gwerthu sefydlog a mwy

39 Mae cyfraith gyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried yr holl ystyriaethau perthnasol ac anwybyddu'r ystyriaethau amherthnasol wrth wneud penderfyniadau. Un ffordd y gall cyrff cyhoeddus ddangos eu bod wedi cydymffurfio â'r egwyddor hon yw trwy gofnodi'n llawn yr ystyriaethau y maent wedi'u hystyried.

40 Methodd CNC â chofnodi'n briodol y broses gwneud penderfyniadau a arweiniodd at ei benderfyniad i gyflwyno'r contractau gwerthu sefydlog a mwy. Yn benodol, mae CNC wedi methu â darparu dogfennau cydoesol sy'n nodi ei resymeg dros gyflwyno contractau gwerthu sefydlog a mwy na sut yr ystyriodd y risgiau a'r buddion posibl yn sgil y dull newydd hwn o werthu pren.

41 Er bod neges e-bost fewnol dyddiedig 9 Tachwedd 2016 yn nodi bod gwerthiannau sefydlog a mwy wedi'u datblygu ar y cyd â chwsmeriaid, nid yw CNC wedi gallu rhoi tystiolaeth i mi o hyn (Atodiad 1, Paragraff 1.20).

## Ystyried effaith gwerthiannau sefydlog a mwy ar gystadleuaeth yn y farchnad pren

42 Rwyf o'r farn bod cyflwyno gwerthiannau sefydlog a mwy bob amser yn debygol o ffafrio cwsmeriaid mwy â'r gallu a'r capasiti i gyflawni cyfuniad o waith cynaeafu, peirianneg sifil ac ailstocio fel amod o brynu pren gan CNC.  O'r 79 o gontractau gwerthu sefydlog a mwy a weithredwyd yn 2016-17, 2017-18 a 2018-19, dyfarnwyd 49 i ddau gwsmer ac amcangyfrifir y bydd y ddau gwsmer hyn yn cael rhyw 69% o'r pren a werthwyd gan CNC o dan gontractau gwerthu sefydlog a mwy.

43 Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth mewn dogfennau i ddangos bod CNC wedi ystyried yr effaith y byddai gwerthiannau sefydlog a mwy yn ei chael ar weithrediad y farchnad wrth gyflwyno'r dull newydd hwn o werthu pren yn ei Ddatganiad Marchnata Pren Interim ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2016 hyd 31 Mawrth 2017.

44 Ar 7 Rhagfyr 2016, dywedodd Pennaeth Menter CNC ar y pryd wrth gyfarfod Bwrdd CNC fod pryder bod y dull gwerthiannau sefydlog a mwy yn ffafrio cwmnïau mwy, gan fod risgiau yn rhy uchel i fusnesau llai, (Atodiad 1, paragraff 1.26). Nid yw CNC wedi darparu unrhyw dystiolaeth i ddangos yr ystyriwyd y pryder hwn, na bod CNC wedi bodloni ei hun bod y defnydd o ddull a oedd yn ffafrio cwmnïau mwy yn gydnaws â'i amcanion polisi a'i nod o sicrhau cynaliadwyedd y farchnad. Er gwaethaf y pryder a adroddwyd i'r Bwrdd ym mis Rhagfyr 2016, cynyddodd CNC yn sylweddol ei ddefnydd o gontractau gwerthu sefydlog a mwy yn ystod blynyddoedd 2017-18 a 2018-19 (Atodiad 2, Tabl 5).

45 Roedd yr effaith y byddai gwerthiannau sefydlog a mwy yn ei chael ar weithrediad y farchnad yn ystyriaeth briodol y dylai CNC fod wedi'i hystyried wrth benderfynu

cyflwyno gwerthiannau sefydlog a mwy a chynyddu ei ddefnydd o’r dull gwerthiannau sefydlog a mwy. Nid yw CNC wedi gallu dangos ei fod wedi ystyried hyn yn ei benderfyniadau.

## Ystyriaethau cyfreithiol a chaffael

46 Roedd penderfyniad CNC i gyflwyno contractau gwerthu sefydlog a mwy yn 2016-17 yn ddull newydd ac arloesol o bosib o werthu pren. Roedd yn cyfuno gwerthu pren â chaffael gwaith peirianneg sifil a gwasanaethau ailstocio. Cyflwynodd y dull newydd gymhlethdodau penodol gan gynnwys yr angen i sicrhau:

- y cydymffurfiwyd â rheoliadau caffael wrth ddyfarnu contractau cymysg;
- bod telerau cytundebol yn briodol ac yn diogelu buddiannau CNC.

47 I fynd i’r afael â’r materion hyn, byddwn i’n disgwyl y byddai Is-adran Gwerthiannau Pren CNC wedi gofyn am gyngor cyfreithiol, caffael ac ariannol mewnol neu allanol cyn cyflwyno contractau gwerthu sefydlog a mwy.

48 Nid yw CNC wedi gallu rhoi unrhyw dystiolaeth i fy archwilwyr i nodi y gofynnwyd am gyngor ar agweddau caffael ar gontractau gwerthu sefydlog a mwy. Nodaf y gofynnwyd am gyngor cyfreithiol allanol ar eiriad contractau gwerthu sefydlog a mwy yn rhan o adolygiad cyffredinol o gontractau gwerthu pren CNC. Ar 14 Awst 2016, anfonodd cynghorwyr cyfreithiol allanol CNC newidiadau at Adran Bren CNC i eiriad arfaethedig y contractau i’w defnyddio ar gyfer gwerthiannau sefydlog a mwy. Ni wnaeth CNC weithredu’r newidiadau hyn ac yn hytrach, defnyddiodd ei ddogfennau contractau gwerthu sefydlog presennol i ddyfarnu contractau gwerthu sefydlog a mwy. Nid yw CNC wedi gallu rhoi esboniad imi pam na wnaeth weithredu ar y cyngor cyfreithiol a gafodd (Atodiad 1, paragraff 1.15). Ar 10 Ebrill 2018, cydnabu cyfarfod staff yn Adran Goedwigaeth CNC nad oedd y dogfennau contract a oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer contractau gwerthu sefydlog a mwy yn effeithiol ar gyfer contractau ag elfen ailstocio (Atodiad 1, paragraff 1.33).

49 Ar ddechrau 2019, gofynnodd CNC am gyngor cyfreithiol ar ba un a oedd rheoliadau caffael yn berthnasol i gontractau gwerthu sefydlog a mwy. Cafodd CNC gyngor bod contractau gwerthu sefydlog a mwy yn gontractau cymysg a oedd yn cynnwys elfennau gwerthu a chaffael gwaith a gwasanaethau, ac felly wedi’u cynnwys yng nghwmpas Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (Rheoliadau 2015). Fel y nodir ym mharagraffau 36-38, mae methiant CNC i ystyried goblygiadau caffael y contractau gwerthu sefydlog a mwy cyn eu cyflwyno neu ar ôl hynny, wedi arwain at fethu â chydymffurfio â gofynion Rheoliadau 2015. Yn ogystal â hyn, rwyf o’r farn bod methiant CNC i ystyried goblygiadau cyfreithiol a chaffael y contractau gwerthu sefydlog a mwy cyn eu cyflwyno yn golygu bod CNC wedi methu ag ystyried yr holl ystyriaethau perthnasol wrth wneud y penderfyniad hwnnw.

## Ystyriaethau cyfrifyddu

50 Cyflwynodd CNC gontractau gwerthu sefydlog a mwy yn ystod y flwyddyn ariannol 2016-17. Roedd yn ofynnol i gynigwyr am gontractau gwerthu sefydlog a mwy gyflwyno cynigion ar sail pris cyfartalog, h.y. maent yn cynnig un pris am bob tunnell o bren y bydd yn ei brynu a oedd yn ystyried y gofyniad i wneud gwaith peirianneg sifil ac mewn rhai achosion ailstocio'r safle. Gwrthbwyswyd yr incwm y mae CNC wedi'i gael o gontractau gwerthu sefydlog a mwy gan gostau gwaith peirianneg sifil a gwasanaethau ailstocio. O ganlyniad i hyn, ni all CNC wahanu'r incwm a'r gwariant sy'n gysylltiedig â'r ddwy elfen o'r contract. Mae'n ofynnol i CNC gyfrifyddu ar wahân incwm o werthiannau a gwariant sy'n gysylltiedig â chaffael gwaith a gwasanaethau.

51 Ers cyflwyno gwerthiannau sefydlog a mwy, mae CNC wedi cyfrifyddu trafodiadau gwerthu sefydlog a mwy ar sail incwm net, h.y. nid yw wedi gwahanu incwm a gwariant fel y mae'n ofynnol ei wneud yn unol â Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol. Rwy'n fodlon nad yw hyn wedi arwain at gam-ddatgan sylweddol yn natganiadau ariannol CNC. Serch hynny, roedd sut y dylid ystyried trafodiadau gwerthu sefydlog a mwy sy'n deillio o gontractau â dull prisio cyfartalog yn ystyriaeth berthnasol y dylai CNC fod wedi'i hystyried wrth gyflwyno'i gontractau gwerthu sefydlog a mwy.

## Perfformiad ystyriaethau ailstocio

52 Ers cyflwyno gwerthiannau sefydlog a mwy mae CNC wedi dechrau 43 o gontractau gwerthu sefydlog a mwy a oedd yn cynnwys gofyniad i ailstocio. Gall safle gael ei ailstocio sawl blwyddyn ar ôl cwympo'r coed ar y safle. O ganlyniad i ddull prisio cyfartalog y contractau gwerthu sefydlog a mwy cynhaliwyd y trafodiadau cytundebol ar adeg cwympo'r coed nid ar adeg ailstocio'r safle. Felly roedd CNC yn talu cwsmeriaid i ailstocio'r safle sawl blwyddyn cyn darparu'r gwasanaeth. Ym mis Ebrill 2016, nododd Gweithgor Ailstocio CNC fod talu ymlaen llaw ar gyfer gwasanaethau ailstocio yn peri risg na fyddai'r ailstocio yn digwydd neu ddim yn digwydd i'r safon ofynnol (Atodiad 1, paragraffau 1.11 i 1.12). Awgrymodd y Grŵp fynd i'r afael â'r risg hon trwy eu gwneud yn ofynnol i gwsmeriaid ddarparu bond ariannol i sicrhau y darperir y gwasanaeth yn effeithiol. Ni weithredwyd y cynnig hwn, ac nid yw CNC wedi gallu rhoi esboniad i fy archwilwyr am hyn.

53 Adroddodd adolygiad Grant Thornton o drefniadau llywodraethu CNC o'i werthiannau pren ym mis Ionawr 2019 nad oedd CNC wedi monitro'n effeithiol lefel yr ailstocio sydd ei hangen yn y contractau gwerthu sefydlog a mwy, ac nid oedd yn glir i ba raddau y gwnaeth CNC dalu am wasanaeth cyn ei ddarparu trwy gytundeb i dderbyn refeniw is o werthiannau. Ar hyn o bryd, mae CNC yn ceisio trefnu dileu unrhyw ofynion peirianneg sifil ac ailstocio cytundebol â'i gwsmeriaid gwerthiannau sefydlog a mwy (Atodiad 1, paragraff 1.43).

54 Rwyf o'r farn bod y cwestiwn ynghylch sut y byddai CNC yn sicrhau y byddai gwasanaethau ailstocio yn y dyfodol y talwyd amdanynt ymlaen llaw yn cael eu darparu i safonau gofynnol yn ystyriaeth berthnasol y dylai CNC fod wedi'i hystyried wrth gyflwyno'r contractau gwerthu sefydlog a mwy. Er bod tystiolaeth y gwnaeth CNC ystyried y risg na fyddai'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn effeithiol, ni roddodd ar waith ddulliau i fynd i'r afael â'r risg.

### Ystyriaethau gwerth am arian

55 Canfu adolygiad Grant Thornton o drefniadau llywodraethu CNC o'i werthiannau pren nad yw CNC wedi gallu darparu dogfennau yn dystiolaeth bod contractau gwerthu sefydlog a mwy yn cynrychioli'r gwerth gorau am arian.

56 Rwy'n cytuno â'r farn hon. Er bod fy archwilwyr wedi gweld dogfennau o 2016 sy'n dangos y gwnaeth CNC ymrwymiadau i gynnal cynllun treialu o'r contractau gwerthu sefydlog a mwy i benderfynu a yw'r dull hwn o werthu pren yn cyflawni gwerth am arian (Atodiad 1, paragraffau 1.20 i 1.22), nid yw CNC wedi gallu darparu tystiolaeth bod unrhyw asesiad o'r fath wedi'i chynnal na'i fod wedi datblygu unrhyw ddull o asesu a yw contractau gwerthu sefydlog a mwy yn cynrychioli gwerth am arian. Dylai'r cwestiwn ynghylch a yw gwerthiannau sefydlog a mwy yn cynrychioli gwerth am arian fod wedi bod yn ystyriaeth berthnasol ym mhenderfyniadau CNC i a) parhau i ddefnyddio'r dull hwn a b) cynyddu ei ddefnydd o'r dull hwn. Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth mewn dogfennau bod CNC wedi ystyried hyn.

57 Mae gen i ragor o bryderon ynghylch ystyriaeth CNC o gost a buddion contractau gwerthu sefydlog a mwy, ac rwyf wedi nodi'r rhain ym mharagraffau 73 i 86.

## Methu â chydymffurfio â Chynllun Dirprwyo CNC

58 Mae swyddogaethau CNC wedi'u nodi yng Ngorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 (y Gorchymyn). Mae'r swyddogaethau hyn yn cynnwys cyflawni unrhyw swyddogaeth ddirprwyedig y Comisiynwyr Coedwigaeth. Felly mae gan CNC y pŵer i reoli'r ystâd goed gyhoeddus a gwneud unrhyw benderfyniadau angenrheidiol i gyflawni'r swyddogaeth honno'n effeithiol. Mae Gorchymyn 2012 yn nodi y caiff CNC ddirprwyo'r cyfrifoldeb i arfer ei swyddogaethau i bwyllgor, is-bwyllgor, aelod neu weithiwr yn CNC. Mae hyn yn cynnwys trefnu contractau â chyflenwyr neu brynwyr allanol.

59 Mae Bwrdd CNC wedi cymeradwyo Cynllun Dirprwyo Ariannol o'r enw 'Rheoli Ein Harian' ac o dan hwn mae holl weithgareddau ariannol CNC wedi'u dyrannu i lefel awdurdod y cytunwyd arni neu ddeiliad swydd penodol. Mae'n caniatáu i'r Bwrdd ddirprwyo'r cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau ar gyfer materion ariannol penodol.

60 Y Cynllun Dirprwyo Ariannol yw'r dull y mae Bwrdd CNC yn ei ddefnyddio i ddirprwyo ei swyddogaeth o drefnu contractau i aelodau staff unigol ac mae'n ddull o reoli risg ac uniondeb ariannol. Os nad yw awdurdodiad contract yn cydymffurfio â'r Cynllun Dirprwyo, bydd trafodiadau o ran y contractau hynny yn eitemau cyfrif sy'n groes i'r gyfraith.

61 Mae'r Cynllun Dirprwyo Ariannol yn nodi'r deiliaid swydd ag awdurdod i drefnu contractau gwerthu pren, a gwerthoedd contractau y mae eu dirprwyaeth yn eu caniatáu, (Atodiad 2, paragraffau 2.9 i 2.10).

62 Fel y nodir yn Atodiad 2, paragraff 2.11, profodd fy archwilwyr sampl o 13 o'r contractau gwerthu sefydlog a mwy a chanfu fod chwech o'r rhain wedi'u hawdurdodi gan swyddogion CNC nad oedd ganddynt y ddirprwyaeth ofynnol i awdurdodi dyfarniad contractau am y gwerth a gymeradwywyd.

63 Yr amcangyfrif o werth y contractau nad oeddent wedi'u hawdurdodi'n briodol oedd £2,405,375.

64 Profodd fy archwilwyr hefyd sampl o wyth estyniad i gontractau gwerthu sefydlog a mwy i sicrhau bod yr estyniadau i'r contract wedi'u hawdurdodi yn unol â Chynllun Dirprwyo Ariannol CNC. Canfu fy archwilwyr er bod yr holl estyniadau i gontractau wedi'u hawdurdodi gan swyddogion CNC, fod pedwar wedi'u hawdurdodi gan swyddogion CNC nad oedd ganddynt y ddirprwyaeth ofynnol i awdurdodi dyfarniad contractau am y gwerth a gymeradwywyd.

65 Canfu'r profion y cynhaliodd fy archwilwyr nad oedd y methiant i gydymffurfio â'r Cynllun Dirprwyo Ariannol wrth ddyfarnu contractau gwerthu pren yn berthnasol dim ond i gontractau gwerthu sefydlog a mwy. Tua diwedd 2018, rhoddodd CNC drefniadau gwell ar waith i sicrhau bod contractau a ddyfernir yn y dyfodol yn cydymffurfio â'r Cynllun Dirprwyo Ariannol.

66 Rwyf o'r farn yn yr achosion hynny pan fethodd CNC â chydymffurfio â'i Gynllun Dirprwyo Ariannol wrth ddyfarnu contractau neu estyniadau i gontractau, bod y trafodiadau sydd wedi'u cynnwys yn natganiadau ariannol 2018-19 CNC yn groes i'r gyfraith. O ganlyniad i hyn, rwyf wedi rhoi amod ar fy marn ar reoleidd-dra datganiadau ariannol CNC.

## Methu â chyfeirio gweithgareddau a chynigion anarferol, dadleuol a/neu adleisiol i Lywodraeth Cymru

67 Y brif ddogfen sy'n rhoi awdurdod ar gyfer trafodiadau CNC yw'r Ddogfen Fframwaith. Mae'r Ddogfen Fframwaith yn nodi bod taliad cymorth grant i CNC yn amodol ar gyflawniad boddhaol CNC o'i holl rwymedigaethau, sy'n cynnwys cydymffurfio â chyhoeddiad Llywodraeth Cymru, Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Mae'r gofyniad i gydymffurfio â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru yn ymwneud ag adran 70 (2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2) sy'n nodi y gall Gweinidogion Cymru ychwanegu amodau at gymorth ariannol a roddir ganddynt; ac mae'r amodau y gellir eu hychwanegu yn cynnwys, yn arbennig, amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ad-dalu'r holl grant neu ran ohono, neu wneud unrhyw daliad arall dan unrhyw amgylchiadau.

68 O dan y teitl 'Gwariant', mae paragraff 3.9.1 o Ddogfen Fframwaith CNC yn datgan: Bydd CNC yn cydymffurfio â'r dirprwyaethau a nodir yn Atodiad 5. Mae Atodiad 5 yn nodi bod angen cymeradwyaeth tîm noddi perthnasol Llywodraeth Cymru ar gyfer unrhyw gynigion anarferol, dadleuol neu adleisiol.

69 Rwyf wedi ystyried y fersiwn o Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016. Dywed y ddogfen hon ym mharagraff 3.8.2: Mae'r

ddogfen fframwaith (neu'r hyn sy'n cyfateb iddi) y cytunwyd arni rhwng corff cyhoeddus a'i noddwr bob amser yn darparu bod y Gangen sy'n noddi yn goruchwylio, mewn modd ystyrlon, strategaeth a pherfformiad, trefniadau talu a/neu drafodion ariannol mawr y corff cyhoeddus, e.e. drwy ffurflenni misol, dirprwyo safonol, adroddiadau ar eithriadau. Dylai cyrff cyhoeddus gyfeirio unrhyw faterion yr ymddengys eu bod yn anarferol, yn ddadleuol neu'n adleisiol at y Gangen sy'n eu noddi.

70 Mae Dogfen Fframwaith CNC yn nodi mewn cysylltiad â gwariant bod yn rhaid i CNC gael cymeradwyaeth ysgrifenedig cyn parhau ag unrhyw gynnig y gellid ystyried ei fod yn anarferol, yn ddadleuol neu'n adleisiol. O ran incwm (gan gynnwys enillion gwaredu o Ystad Goed Llywodraeth Cymru), mae'n nodi bod yn rhaid i CNC geisio sicrhau'r incwm mwyaf posibl pan fo hyn yn gyson â'i swyddogaethau ac yn cyd-fynd â'r Cynllun Corfforaethol y cytunwyd arno. Mae contractau gwerthu sefydlog a mwy yn gontractau cymysg sy'n cynnwys incwm o werthu pren a gwariant ar waith peirianneg sifil a gwasanaethau ailstocio.

71 Felly yr oedd yn ofynnol i CNC gyfeirio unrhyw gynigion anarferol, dadleuol neu adleisiol i Lywodraeth Cymru a chael cymeradwyaeth ysgrifenedig ar gyfer gwariant. Rwyf o'r farn bod y contractau pontio yn anarferol, yn ddadleuol a/neu yn adleisiol oherwydd bod y cynnig i drefnu contractau gwerthu sefydlog a mwy:

- yn ddull newydd nad oedd wedi'i brofi o werthu pren ac a oedd yn cynnwys cyfuno gwerthiannau â chaffael gwaith a gwasanaethau. Felly rwy'n ystyried bod y cynnig yn newydd (gweler paragraff 46).
- Roedd gan gontractau gwerthu sefydlog a mwy y potensial i effeithio ar weithrediad y farchnad a ffafrio cwsmeriaid mwy. Ym mis Rhagfyr 2016, nododd adroddiad i Fwrdd CNC fod adborth o'r contractau gwerthu sefydlog a mwy cyntaf a ddyfarnwyd yn dangos bod gwerthiannau sefydlog a mwy yn ffafrio cwsmeriaid mwy (gweler paragraff 44). Serch hynny, penderfynodd CNC gynyddu ei ddefnydd o werthiannau sefydlog a mwy. Felly rwyf o'r farn bod y cynnig cychwynnol i gyflwyno contractau gwerthu sefydlog a mwy a'r penderfyniadau i barhau a chynyddu eu defnydd yn ddadleuol a/neu'n adleisiol.

72 Er y tynnodd CNC sylw Llywodraeth Cymru at y ffaith ei fod yn cyflwyno contractau gwerthu sefydlog a mwy, ni roddodd wybod i Lywodraeth Cymru y gall gwerthiannau sefydlog a mwy fod yn anarferol, yn ddadleuol a/neu'n adleisiol, ac ni wnaeth gyfeiriad i Lywodraeth Cymru fel sy'n ofynnol yn ei Ddogfen Fframwaith a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, nac ychwaith gael y gymeradwyaeth ysgrifenedig ofynnol i ddyfarnu contractau gwerthu sefydlog a mwy. O ganlyniad i hyn, ni wnaeth CNC fodloni'r gofyniad hwn yn fy marn i. Rwyf o'r farn bod y trafodiadau sy'n gysylltiedig â'r contractau hyn sydd wedi'u cynnwys yn natganiadau ariannol CNC ar gyfer 2018-19 y tu allan i'r fframwaith awdurdod sy'n eu llywodraethu ac felly eu bod yn afreolaidd. O ganlyniad i hyn, rwyf wedi rhoi amod ar fy marn ar reoleidd-dra datganiadau ariannol 2018-19 CNC.

# Methu â chydymffurfio ag Erthygl 8 o Orchymyn Sefydlu CNC

## Asesiad cost a budd

73 Mae Erthygl 8 o Orchymyn Sefydlu 2012 CNC (y Gorchymyn) yn datgan ‘wrth ystyried p'un ai arfer unrhyw bŵer a roddwyd iddo gan unrhyw ddeddfiad neu o dano ai peidio, rhaid i'r Corff ystyried y costau a'r buddiannau sy’n debygol o ddeillio o arfer y pŵer hwnnw neu beidio’.

74 Yn ei Ddatganiad Marchnata Pren 2016-17 nododd CNC y byddai’n gwerthu rhyw 150,000$m^3$ obs (dros risgl yn sefyll) o bren sy’n sefyll, ar farchnad agored heb fod cyfleusterau cynaeafu a seilwaith ar waith. Ailenwyd y dull gwerthu pren hwn yn werthiannau sefydlog a mwy. Dywedodd CNC wrth fy archwilwyr y cyflwynwyd contractau gwerthu sefydlog a mwy yn 2016-17 ar gynllun treialu i brofi’r farchnad yn ystod y cyfnod hwn. Bwriad CNC oedd gwerthuso’r math hwn o werthu yn ystod y cyfnod treialu.

75 Rwy’n cydnabod bod angen treialu dull newydd weithiau i asesu costau a buddion tebygol y dull hwnnw a gwerthuso’r canlyniad cyn cyrraedd penderfyniad ynghylch parhau ai peidio. Nododd CNC yn ei Gynllun Marchnata Pren ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2017 hyd 31 Mawrth 2022 ei fod yn treialu’r defnydd o gontractau gwerthu sefydlog a mwy ac y byddai’n “asesu perfformiad [contractau gwerthu sefydlog a mwy a ddyfarnwyd yn y cynllun treialu] yn ofalus i wneud yn siŵr eu bod yn gallu sicrhau’r canlyniadau yr ydym yn chwilio amdanynt, yn cynnig gwerth da am arian a manteision i gwsmeriaid.” (Atodiad 1 paragraff 1.28). Dywedodd CNC wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig yn Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2016 y byddai’n sefydlu proses asesu ac adolygu ffurfiol o’r cynllun treialu i ddarparu sicrwydd ei fod yn bodloni’r canlyniadau yr ydym yn eu dymuno, yn darparu gwerth am arian ac yn cyflawni ei rwymedigaethau amgylcheddol, iechyd a diogelwch (Atodiad 1, paragraff 1.22).

76 Nid yw CNC wedi gallu darparu tystiolaeth i fy archwilwyr bod y cynllun treialu contractau gwerthu sefydlog a mwy wedi’i asesu na’i werthuso, ac na chynhaliwyd unrhyw asesiad dilynol o gostau a buddion contractau gwerthu sefydlog a mwy. Serch hynny, arferodd CNC y pŵer a roddwyd iddo i barhau i ddyfarnu contractau gwerthu sefydlog a mwy, heb allu dangos ei fod wedi ystyried y costau a’r buddion tebygol. Rwy’n amau’n sylweddol felly a yw CNC wedi cydymffurfio â gofynion ei Orchymyn Sefydlu.

## Prisio Contractau

77 Fel y nodir ym mharagraff 50, yr oedd yn ofynnol i gynigwyr am gontractau gwerthu sefydlog a mwy gyflwyno cynigion ar sail pris cyfartalog fesul tunnell o bren a brynwyd. Wrth bennu’r pris y dunnell i’w gynnig, roedd yn rhaid i ddarpar gwsmeriaid ystyried amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys:

- faint o bren (cyfaint a thunelli) i'w gynaeafu ar y safle
- cymysgedd y pren (rhywogaethau ac ansawdd) i'w brynu
- costau cynaeafu
- cost gwneud y gwaith peirianneg sifil ac ailstocio sy'n ofynnol gan CNC
- ei adenillion gofynnol

78 O ganlyniad i hyn, roedd cyfrifo pris cyfartalog y dunnell yn cynnwys lefel o gymhlethdod nad oedd yn gysylltiedig â chontractau gwerthu pren safonol. Roedd darpar gwsmeriaid yn dibynnu ar gywirdeb amcanestyniad CNC o faint o bren a chymysgedd y pren oedd ar gael ar y safle dan sylw'r contract gwerthu sefydlog a mwy. Roedd cywirdeb yr wybodaeth hon yn hollbwysig i alluogi darpar gynigwyr gyfrifo pris cyfartalog fesul tunnell o bren yr oeddent yn fodlon ei dalu. Roedd hyn oherwydd bod angen i gynigwyr sicrhau y byddai'r pris cyfartalog yn eu galluogi i adfer yn llawn y costau sefydlog ar y cyfan sydd ynghlwm wrth wneud y gwaith peirianneg sifil ac ailstocio a oedd yn ofynnol gan CNC. Mae'r enghraifft wedi'i chyfrifo ganlynol yn dangos yn syml sut y gallai darpar gwsmer lunio cynnig pris cyfartalog.

**<u>Enghraifft wedi'i Chyfrifo</u>**

Pwysau'r pren a gontractwyd – 10,000 o dunelli (nifer y tunelli wedi'i roi i ddarpar gynigwyr gan CNC)

Pris gros y pren y mae'r prynwr yn fodlon ei dalu ar ôl costau cynaeafu – £40 y dunnell

Costau Peirianneg Sifil – £30,000 (wedi'i amcangyfrif gan y cynigiwr ar sail yr hyn a bennwyd gan CNC)

Costau Cynaeafu – £60,000 (wedi'i amcangyfrif gan y cynigiwr ar sail yr hyn a bennwyd gan CNC)

**Cyfrifo'r pris cyfartalog**

Cam 1: Cyfrifo pris prynu pren gros

10,000 tunnell i'w prynu x £40 y dunnell = £400,000

Cam 2: Tynnu costau gwaith peirianneg sifil ac ailstocio o bris prynu'r pren

£400,000 - £30,000 - £60,000 = pris pren net o £310,000

Cam 3: Cyfrifo pris cyfartalog am bob tunnell a gontractwyd

£310,000 wedi'i rannu â 10,000 tunnell = pris cynnig o £31 y dunnell

79 Pan fydd y cwsmer wedi cynaeafu'r cyfaint a gontractwyd o 10,000 o dunelli am bris net o £31 y dunnell, byddai, i bob pwrpas, wedi prynu'r pren yr oedd ei angen arno am darged pris gros o £40 y dunnell.

80 Fodd bynnag, os mai 5,000 o dunelli yn unig o’r 10,000 o dunelli a gontractiwyd a nodwyd gan CNC oedd ar gael i’w gynaeafu, mae’n bosibl y byddai’r cwsmer dan anfantais. Fel y dangosir isod, er y byddai’r cwsmer yn dal i dalu pris net o £31 y dunnell i CNC, byddai’r pris gros y byddai’r cwsmer yn ei dalu yn cynyddu i £49 y dunnell, sy’n golygu bod y cwsmer yn talu £9 y dunnell yn fwy na’r pris gros o £40 y seiliwyd ei gais arno, fel y dangosir isod.

| |
|---|
| **Cam 1:** Pris a dalwyd i CNC |
| £31 y dunnell am 5,000 tunnell = £155,000 |
| **Cam 2:** Ychwanegu costau peirianneg sifil ac ailstocio a ysgwyddir gan y prynwr |
| £155,000 + £30,000 + £60,000 = £245,000 |
| **Cam 3:** Cyfrifo pris gros y dunnell a dalwyd gan gwsmer |
| £245,000 wedi’i rannu ag 5,000 tunnell = £49 y dunnell |

81 Ar y llaw arall, os oedd y cwsmer yn gallu cynaeafu 15,000 o dunelli o bren, yn hytrach na’r 10,000 o dunelli a bennwyd gan CNC, mae’n bosibl y byddai’r cwsmer yn elwa yn sgil y gorgyflenwi, ac y byddai CNC yn gwerthu pren am lai na chyfradd y farchnad. Byddai’r cwsmer yn dal i dalu pris net o £31 y dunnell i CNC ond, i bob pwrpas, byddai dim ond yn talu pris gros o £37 y dunnell o bren a brynwyd, o’i gymharu a’r £40 y dunnell y seiliwyd y cynnig arno, fel y dangosir isod.

| |
|---|
| **Cam 1:** Pris a dalwyd i CNC |
| £31 y dunnell am 15,000 tunnell = £465,000 |
| **Cam 2:** Ychwanegu costau peirianneg sifil ac ailstocio a ysgwyddir gan y prynwr |
| £465,000 + £30,000 + £60,000 = £555,000 |
| **Cam 3:** Cyfrifo pris gros y dunnell a dalwyd gan gwsmer |
| £555,000 wedi’i rannu â 15,000 tunnell = £37 y dunnell |

82 Fel y nodir yn Atodiad 1, paragraff 1.35, dywedodd cwsmeriaid gwerthiannau sefydlog a mwy wrth CNC mewn cyfarfod â swyddogion CNC ar 15 Mai 2018, fod risgiau annerbyniol i gynigwyr pan fo cyfaint y pren i’w gynaeafu mewn contract gwerthu sefydlog a mwy yn sylweddol lai nag a amcangyfrifwyd. Codwyd pryder hefyd ynghylch ansawdd, tryloywder a chysondeb y data mesur sydd gan CNC ar gyfer ardaloedd yn y contractau gwerthu sefydlog a mwy, a bod y ffordd y cyflwynir y data gan CNC yn peri risg sylweddol i ddarpar brynwyr.

83 Cymharodd fy archwilwyr faint o bren CNC a gontractwyd i’w werthu i gwsmeriaid gwerthiannau sefydlog a mwy â faint a werthwyd i bob un o’r 44 o gontractau gwerthu sefydlog a mwy a gwblhawyd cyn 31 Mawrth 2019. Canfuwyd bod gan 7 o’r 44 o gontractau a gwblhawyd gyfaint alldro o fewn +/-10% o’r cyfaint a gontractwyd. Roedd gan y mwyafrif, 59%, gyfaint alldro o fwy na 110% o hwnnw a gontractwyd, ac roedd gan 18% o gontractau gyfaint alldro o fwy na 150% o hwnnw a

gontractwyd. Roedd y cyfaint alldro ar 11 o gontractau yn dangos amrywiad o fwy na +/-50% o'r hyn a gontractwyd (Atodiad 2, paragraff 2.8).

84 O ystyried hyn, mae gen i bryderon sylweddol ynghylch cywirdeb y data mesur y mae CNC yn eu defnyddio i bennu tunelli contractau y gofynnir i gynigwyr gyflwyno cynnig arnynt. Rwy'n derbyn bod yn rhaid cael rhywfaint o oddefiant wrth amcangyfrif cyfaint a thunelli pren. Fodd bynnag, mae'n destun pryder mai dim ond 7 o'r 44 o gontractau gwerthu sefydlog a mwy a gwblhawyd oedd â thunelli alldro o fewn 10% o hynny a gontractwyd.

85 Nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod CNC wedi ystyried yr effaith y gallai cyflwyno dull ar sail pris cyfartalog ei chael ar degwch i gwsmeriaid a chyflawni gwerth am arian i CNC pan nad oedd tunelli pren a gontractiwyd ar gael neu'n fwy na'r hyn a gontractiwyd. Fel y mae'n digwydd, roedd cyfaint alldro mwyafrif helaeth o'r contractau gwerthu sefydlog a mwy yn fwy na'r cyfaint a gontractiwyd, felly nid yw CNC wedi gallu dangos i mi fod y gwerthwyd y pren yn y contractau hyn ar gyfraddau'r farchnad.

86 Felly nid wyf yn fodlon bod CNC, wrth drefnu'r contractau gwerthu sefydlog a mwy a oedd yn cynnwys dull prisio cyfartalog, wedi ystyried y costau a'r buddion tebygol a fyddai'n deillio o ddefnyddio'r dull prisio hwnnw.  Rwy'n amau'n sylweddol felly a yw CNC wedi cydymffurfio â gofynion ei Orchymyn Sefydlu.

# Atodiad 1

## Datblygiad, gweithrediad a chyflawniad contractau Gwerthu Sefydlog a Mwy gan CNC o 2015 hyd heddiw

### Datblygiad gwerthiannau sefydlog a mwy

1.1. Ar 1 Ebrill 2013, dechreuodd CNC weithredu fel y corff amgylcheddol newydd i Gymru. Un o'i ddyletswyddau yw rheoli Ystad Goed Llywodraeth Cymru fel ased cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys cynaeafu a marchnata pren o Ystad Goed Llywodraeth Cymru. CNC yw cyflenwr mwyaf pren ardystiedig Cymru.

1.2. Mae CNC yn cyfleu ei ddull o gynaeafu a marchnata pren trwy Gynllun Marchnata Pren. Mae'r Cynllun Marchnata Pren yn nodi cyfaint y pren y bydd CNC yn ei ryddhau i'r farchnad bob blwyddyn a'i ddulliau o farchnata a gwerthu. O 1 Ebrill 2013 hyd 31 Mawrth 2016, parhaodd CNC i weithio ar Strategaeth Marchnata Pren 2011-16 Comisiwn Coedwigaeth Cymru.

1.3. Ar ddechrau 2015, dechreuodd CNC weithio ar lunio Cynllun Marchnata Pren 5 mlynedd newydd ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2016 hyd 31 Mawrth 2021. Rhwng mis Gorffennaf 2015 a mis Hydref 2015, ymgynghorodd CNC ar ddrafft o'r Cynllun Marchnata Pren 5 mlynedd. Nododd y Cynllun Marchnata Pren drafft fod CNC yn cynnig defnyddio dulliau a chontractau gwerthu traddodiadol ond y byddai'n ystyried unrhyw awgrymiadau o sut y gellid defnyddio gwahanol ddulliau neu gyfuniad mwy effeithiol o fathau o gontractau pren a dulliau o werthu i gael mwy o fudd o adnodd pren Ystad Goed Llywodraeth Cymru, yn arbennig i ysgogi'r gadwyn gyflenwi a pherfformiad ehangach y sector coedwigau.

1.4. Lluniodd CNC grynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Marchnata Pren, ond nid yw'r crynodeb yn cofnodi yr awgrymodd yr ymgyngoreion gyfuno gwerthiannau â chontractau ar gyfer gwaith sifil neu ailblannu (yr hyn a ddaeth yn gontractau gwerthu sefydlog a mwy).

1.5. Yn sgil llawer o ansicrwydd, gan gynnwys cwestiynau ynghylch cyllid hirdymor CNC, penderfynodd Tîm Gweithredol CNC ym mis Rhagfyr 2015 i ohirio cyflwyno'r Cynllun Marchnata Pren 5 mlynedd a chyhoeddi Datganiad Marchnata Interim yn lle hynny ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2016 hyd 31 Mawrth 2017.

1.6. Cyflwynwyd dogfen i'w hystyried mewn cyfarfod Bwrdd CNC ar 28 Ionawr 2016. Nododd y Ddogfen resymau pam y penderfynodd Tîm Gweithredol CNC ohirio cyhoeddiad Cynllun Marchnata Pren 5 mlynedd a pham yr oedd yn lle hynny yn bwriadu cyhoeddi Datganiad Marchnata Interim un flwyddyn. Mewn atodiad i'r ddogfen oedd y Datganiad Marchnata Interim drafft. Gofynnwyd i'r Bwrdd gymeradwyo'r dull arfaethedig o ddatblygu Cynllun Marchnata Pren ar gyfer 2017-22 a'r Datganiad Marchnata Interim ar gyfer 2016-17.

1.7. Nododd y Datganiad Marchnata Interim a gyflwynwyd i'r Bwrdd fwriad CNC i gynnig 850,000m$^3$ obs o bren i'r farchnad yn 2016-17. Mae'n nodi, o'r uchafswm o

850,000m$^3$ obs a gaiff ei gynnig i'w werthu, y caiff rhyw 150,000m$^3$ obs ei werthu ar sail marchnad Gwerthiannau Sefydlog marchnad agored heb fod cyfleusterau cynaeafu a seilwaith ar waith. Bydd y parseli gwerthiannau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r prynwr gyflawni'r holl ofynion angenrheidiol ar gyfer arfer coedwigaeth da fel y nodir yn Safon Coedwigaeth y DU, safon peirianneg sifil lleiaf ac sy'n cydymffurfio â Rheoliadau Adeiladu Dylunio a Rheoli 2015 a fydd yn cael eu nodi'n benodol ym manylion y gwerthiant unigol. Ar gyfer y parseli hyn byddwn hefyd yn ystyried ceisiadau i ailstocio ardaloedd cwympo coed i safonau cynllun ailblannu penodol. Er nad yw'r Datganiad Marchnata Interim yn defnyddio'r term gwerthiannau sefydlog a mwy, mae'n nodi am y tri cyntaf fwriad CNC i gynnig contractau gwerthu pren i'r farchnad a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r prynwr wneud gwaith seilwaith sifil ac o bosibl ailstocio ardaloedd cwympo coed. Roedd y dull hwn o werthu pren yn newydd i CNC. Nid yw CNC wedi gallu rhoi unrhyw ddogfennau cydoesol i fy archwilwyr yn nodi pa ystyriaethau yr ystyriodd wrth benderfynu cyflwyno'r dull newydd hwn o werthu, na thystiolaeth y gofynnwyd am gyngor gan ei Adrannau Cyfreithiol, Caffael a Chyllid ar y dull arfaethedig.

1.8. Ni wnaeth dogfen y Bwrdd yr oedd y Datganiad Marchnata Interim yn atodiad iddi dynnu sylw'r Bwrdd at y dull newydd o werthu pren a oedd yn cael ei gynnig nac unrhyw risgiau a buddion posibl yn sgil y dull gwerthu amgen hwn.

1.9. Mae cofnodion cyfarfod y Bwrdd ar 28 Ionawr 2016 yn cofnodi bod y Bwrdd wedi trafod y Datganiad Marchnata Interim, nodi'r cynigion i brofi'r farchnad mewn ffyrdd arloesol a chymeradwyo'r ddogfen.

1.10. Ar 17 Mawrth 2016, cyflwynodd swyddogion CNC y Datganiad Marchnata Interim i gyfarfod Cysylltu â Chwsmeriaid Pren. Mae nodiadau cydoesol o'r cyfarfod hwn a gofnodwyd gan Brif Weithredwr Cymdeithas Cynnyrch Coedwigoedd y DU, sefydliad cynrychioli cwmnïau prosesu pren, yn cofnodi y rhoddwyd gwybod i gwsmeriaid CNC ei fod yn cyflwyno dull newydd o werthu pren sy'n sefyll. Byddai'r dull newydd o werthu yn ei gwneud yn ofynnol i brynwyr wneud gwaith peirianneg sifil ar y safle yn ogystal ag ailstocio'r safle ar ôl cynaeafu. Mae'r nodiadau hefyd yn cofnodi y mynegwyd pryderon ynghylch y dull newydd hwn gan gwsmeriaid CNC. Roedd y rhain yn cynnwys bod cyflwyniad y dull newydd yn cael ei frysio heb ddigon o feddwl nac ymgynghori â chwsmeriaid.

1.11. Ym mis Ebrill 2016, ystyriodd gweithgor ailstocio mewnol CNC yr agweddau ailstocio ar y contractau gwerthu sefydlog a mwy. Mae nodyn a gyhoeddwyd gan y grŵp yn datgan bod cyfuno cwympo coed ac ailstocio (a pheirianneg sifil) yn un contract yn ddull yr oedd yn dymuno'i brofi yng nghynllun marchnata pren 16/17 ac y gallai hyn arwain at gyflwyno mwy o elfennau llai economaidd y Cynlluniau Adnoddau Coedwigoedd trwy arbedion posibl y gall y contractau cwympo ac ailstocio esgor arnynt.

1.12. Mae'r nodyn yn dangos yr ystyriodd y gweithgor sut y gellid rheoli cyflawniad ailstocio yn y dyfodol a sut y byddai'n sicrhau y byddai'r ailstocio'n cael ei gyflawni i safonau ac amserlen briodol. Cydnabuwyd y byddai hyn yn cynnwys manyleb cytundebol o'r gwasanaeth i'w ddarparu, ac y byddai'n ofynnol i gontractwyr

ddarparu bond y gallai CNC ei ddileu mewn achos o beidio â darparu'r gwasanaeth neu beidio â'i ddarparu i'r fanyleb ofynnol.

1.13. Mae swyddogion CNC wedi dweud wrth fy archwilwyr ei fod wedi llunio dogfen erbyn diwedd 2016 o'r enw Gofynion Cyffredinol ar gyfer Ailstocio a Sefydlu Coed ar Gontractau Gwerthu Sefydlog Amodol CNC. Cyflwynwyd y ddogfen hon mewn atodiad i'r contractau gwerthu sefydlog a mwy a oedd yn cynnwys gofyniad i ailstocio. Mae'r ddogfen yn nodi y bydd yr ardal ailstocio yn bodloni'r pellter rhwng y coed a dwysedd y coed a ddisgrifir yn y rhagnodiad ailstocio sy'n benodol i'r contract ac o fewn yr amser a ddisgrifir yn y rhagnodiad. Fodd bynnag, er bod y contractau gwerthu sefydlog a mwy a ddyfarnwyd wedyn yn cynnwys rhagnodiadau ailstocio penodol sy'n nodi'r pellter rhwng y coed a dwysedd y coed, nid yw pob un yn nodi cyfnod amser ar gyfer ailstocio.

1.14. Ni weithredwyd byth ar gynnig y gweithgor a oed dyn ei gwneud yn ofynnol i gwsmeriaid gwerthiannau sefydlog a mwy a oedd yn cynnwys gofyniad i ailstocio i ddarparu bond i sicrhau y darparwyd y gwasanaeth yn effeithiol. Nid yw CNC wedi gallu rhoi esboniad i fy archwilwyr am hyn.

1.15. Ym mis Gorffennaf 2016, neu tua'r amser hynny, gofynnodd Is-adran Gwerthiannau Pren CNC am gyngor cyfreithiol ar eiriad ei gontractau sefydlog ar gyfer gwerthu coed sy'n sefyll ac i werthu coed sy'n sefyll pan fo'n ofynnol i'r cwsmer wneud gwaith sifil fel amod o'r pryniant, h.y. gwerthiannau sefydlog a mwy. Ar 14 Awst 2016, anfonodd cynghorwyr cyfreithiol allanol CNC gopïau o'r contractau yr oeddent wedi'u diwygio. Ni wnaeth CNC weithredu'r newidiadau hyn. Nid yw CNC wedi gallu rhoi esboniad imi pam na wnaeth weithredu ar y cyngor a gafodd.

## Cyflwyno'r gwerthiannau sefydlog a mwy

1.16. Y dyddiad dechrau ar gyfer y contractau gwerthu sefydlog a mwy a ddyfarnwyd gan CNC oedd 20 Awst 2016.

1.17. Trefnodd CNC 10 o gontractau gwerthu sefydlog a mwy a ddechreuodd yn y flwyddyn ariannol 2016-17. Ni aeth dau o'r contractau a ddyfarnwyd yn eu blaenau. Ceir crynodeb o'r contractau hyn yn Atodiad 2, Tabl 1.

1.18. Dywedodd CNC wrth fy archwilwyr y cyflwynwyd contractau gwerthu sefydlog a mwy yn 2016-17 ar gynllun treialu i brofi'r farchnad yn ystod y cyfnod hwn. Bwriad CNC oedd cynnal gwerthusiad o'r dull hwn o werthu yn ystod y cyfnod treialu, fodd bynnag nid yw CNC wedi gallu dod o hyd i unrhyw ddogfennau sy'n dangos y cynhaliwyd gwerthusiad ffurfiol.

1.19. Yn ystod 2016, dechreuodd CNC weithio ar lunio Cynllun Marchnata Pren 5 mlynedd newydd ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2017 hyd 31 Mawrth 2018. Dosbarthwyd drafft cyntaf o'r cynllun yn CNC i gael sylwadau arno ym mis Hydref 2017. Nododd y cynllun drafft y byddai CNC yn ceisio darparu cyfaint blynyddol o 150,000$m^3$ obs o bren dan gontractau amodol (gwerthiannau sefydlog a mwy).

1.20. Ar 9 Tachwedd 2016, mewn neges e-bost gan gyn Bennaeth Gweithrediadau Masnachol CNC ynghylch y Cynllun Marchnata Pren drafft, dywedwyd efallai y byddai'n well dweud llai am gontractau hirdymor a chynnwys paragraff am ddatblygu dulliau gwerthu newydd amodol ar y cyd â'r cwsmeriaid. Byddai'n ddefnyddiol cael term gwell ar gyfer y rhain oherwydd bod gan bob gwerthiant amodau a gallai rhywbeth fel Gwerthiannau Sefydlog a Mwy gyfleu natur y contractau yr ydym yn arbrofi â nhw. Mae angen i ni egluro y byddwn yn archwilio'r dull newydd hwn o weithio i weld a yw'n darparu gwell gwerth am arian a gwell budd i gwsmeriaid heb amharu ar safonau amgylcheddol a diogelwch. A heb dynnu sylw o gyflwr ein seilwaith a chyrraedd safonau sifil-ddiwylliannol cadarn. Y neges e-bost hon yw'r cyfeiriad cyntaf at ail-frandio contractau gwerthu pren amodol yn gontractau gwerthu sefydlog a mwy.

1.21. Ar 10 Tachwedd 2016, cafodd CNC gais gan Lywodraeth Cymru i ddarparu nodyn briffio i Ysgrifennydd y Cabinet Llywodraeth Cymru dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig cyn cyfarfod yr oedd wedi'i drefnu â chynrychiolwyr diwydiant. Darparodd CNC nodyn briffio yn nodi bod Cynllun Marchnata Pren drafft wedi'i baratoi ar gyfer y cyfnod o 2017 hyd 2022 ond nid oedd wedi'i gymeradwyo gan Dîm Gweithredol na Bwrdd CNC. Nododd y nodyn briffio fod y Cynllun Marchnata Pren yn cynnwys cynnig gwerthu rhaglen hyblyg sylfaenol blynyddol o 150,000$m^3$ obs naill ai ar sail dull gwerthu traddodiadol neu ddull 'amodol'. Mae cynllun treialu'r contractau 'amodol' (a gaiff eu galw'n werthiannau sefydlog a mwy) wedi'u seilio ar y prynwr yn gwneud ei waith sifil ei hun ac yn ailstocio'r safle i'n manyleb ni.

1.22. Nododd y nodyn briffio hefyd, yn sgil newid i'r dull o werthu pren, y gwnaed argymhelliad mewn cyfarfod Tîm Gweithredol CNC ar 15 Tachwedd 2016 i sefydlu proses asesu ac adolygu ffurfiol i roi sicrwydd ein bod yn cyflawni'r canlyniadau yr ydym yn eu ceisio, yn darparu gwerth am arian ac yn cyflawni ein rhwymedigaethau amgylcheddol, iechyd a diogelwch. Byddai'r adolygiad yn cynnwys defnyddio dull gwerthiannau sefydlog a mwy i gyflawni'r gydran hyblyg o'r rhaglen.

1.23. Mae cynnwys y nodyn briffio yn dangos ym mis Tachwedd 2016:

- bod CNC yn dal o'r farn bod gwerthiannau sefydlog a mwy yn gweithredu ar sail cynllun treialu, ac y byddai CNC yn cynnal adolygiad a fyddai'n gwerthuso a oedd gwerthiannau sefydlog a mwy yn cyflawni canlyniadau gofynnol CNC ac yn darparu gwerth am arian ac yn cyflawni rhwymedigaethau amgylcheddol ac iechyd a diogelwch ar yr un pryd. Fodd bynnag, nid yw CNC wedi gallu darparu unrhyw dystiolaeth i ddangos y cynhaliwyd yr adolygiad arfaethedig.
- mai bwriad CNC oedd mai rhan yn unig o'r 150,000$m^3$ obs o gynnig gwerthiannau rhaglen hyblyg blynyddol fyddai trwy gontractau gwerthu sefydlog a mwy, ac y byddai rhan o'r cyfaint hwnnw yn cael ei gynnig trwy ddull gwerthu traddodiadol.

1.24. Cyfarfu Tîm Gweithredol CNC ar 15 Tachwedd 2016. I gefnogi ei ystyriaeth o'r Cynllun Marchnata Pren drafft, cafodd y Tîm Gweithredol nodyn briffio gan

swyddog ynghylch y Cynllun Marchnata Pren yn nodi newidiadau allweddol o'r Cynllun Marchnata Pren blaenorol. Nid oedd unrhyw gyfeiriad uniongyrchol at gontractau gwerthu sefydlog a mwy yn y nodyn briffio. Er na chafodd cyfarfodydd y Tîm Gweithredol eu cofnodi, cadwodd CNC gofnod o gamau gweithredu ar benderfynu a wnaed gan y Tîm Gweithredol. Mae'r cofnod camau gweithredu ar gyfer cyfarfod 15 Tachwedd 2016 yn cofnodi bod y Tîm Gweithredol yn hapus i gymeradwyo'r Cynllun Marchnata Pren i fynd i'r bwrdd. Nid yw'r cofnod camau gweithredu yn cofnodi yr ystyriodd y Tîm Gweithredol neu y gofynnwyd i'r Tîm Gweithredol ystyried yr argymhelliad y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 1.22.

1.25. Ar Rhagfyr 2016, cyfarfu Bwrdd CNC i ystyried y Cynllun Marchnata Pren drafft. I gefnogi ystyriaeth y Bwrdd, rhoddodd Pennaeth Menter CNC ar y pryd ddogfen i'r Bwrdd yn crynhoi cynnwys y cynllun. Cyfeiriodd y ddogfen at gynnig gwerthu rhaglen hyblyg sylfaenol blynyddol o 150,000$m^3$ obs a chadarnhaodd y byddai rhan o hwn yn cael ei werthu trwy gontractau gwerthu sefydlog a mwy a rhan trwy ddulliau gwerthu traddodiadol. Nid oedd unrhyw awgrym yn y ddogfen bod y contractau gwerthu sefydlog a mwy yn anarferol neu'n cyflwyno risgiau nad oeddent yn bodoli mewn dulliau gwerthu traddodiadol (ac eithrio'r risg y gallai gwerthiannau sefydlog a mwy ffafrio cwmnïau mwy fel y nodir ym mharagraff 1.26). Ni nododd y ddogfen oblygiadau cyfreithiol, caffael ac ariannol y gwerthiannau sefydlog a mwy na sut y byddai gwerth am arian yn cael ei asesu.

1.26. Cydnabu'r ddogfen a ddarparwyd i gyfarfod y Bwrdd ar 7 Rhagfyr 2016 fod adborth a gafwyd ynghylch gweithrediad y contractau gwerthu sefydlog a mwy cyntaf a ddyfarnwyd yn 2016-17 wedi amlygu pryderon y gallai gwerthiannau sefydlog a mwy ffafrio cwmnïau mwy. Nododd y ddogfen er y bu'r adborth cychwynnol o'r cynllun treialu ar gyfer contractau gwerthu sefydlog a mwy a gynigiwyd yn 2016/17 yn galonogol o ran cyflawni'r refeniw mwyaf posibl i ni, mae'n cynrychioli ffordd newydd o weithio i ni ac mae angen i ni asesu ac adrodd ar effaith a chyfleoedd y dull hwn i sicrhau ei fod yn addas i'w ddiben ar gyfer oes gyfan y Cynllun pum mlynedd. Ceir pryder bod y dull yn ffafrio cwmnïau mwy oherwydd ystyrir bod y risgiau'n rhy uchel i fusnesau llai. Er y nodwyd y risg hon i'r farchnad ac y cydnabuwyd yr angen i werthuso contractau gwerthu sefydlog a mwy, nid yw CNC wedi gallu darparu tystiolaeth y cynhaliwyd unrhyw asesiad ffurfiol o'r gwerthiannau sefydlog a mwy.

1.27. Yng nghyfarfod y Bwrdd ar 7 Rhagfyr 2016, rhoddodd cyn Bennaeth Gweithrediadau Masnachol CNC gyflwyniad ar y Cynllun Marchnata Pren drafft. Yr unig gyfeiriad at werthiannau sefydlog a mwy ar sleidiau'r cyflwyniad oedd sôn am werthiannau sefydlog a mwy fel enghraifft o un o ffyrdd newydd o weithio CNC.

1.28. Nododd y Cynllun Marchnata Pren drafft a gyflwynwyd i'r Bwrdd y bydd y cynnig hyblyg sylfaenol blynyddol yn ddull gwerthu 'amodol', i gael ei adnabod fel Gwerthiannau Sefydlog a Mwy yn cael ei werthu ar sail Gwerthiannau Sefydlog ar y farchnad agored heb fod cyfleusterau cynaeafu a seilwaith ar waith. Bydd y parseli gwerthu hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r prynwr fodloni'r holl ofynion angenrheidiol i safonau diogelwch arfer gorau. 'Ar gyfer y parseli gwerthu hyn hefyd, byddwn yn ystyried cynigion i ailstocio'r ardal lle cwympwyd y coed yn unol

â safonau cynllun ailblannu penodedig. Lle'r ydym yn treialu ffyrdd newydd o weithio, fel cynnig gwerthiannau fel coed 'gwerthiannau sefydlog a mwy', byddwn yn asesu perfformiad yn ofalus i wneud yn siŵr eu bod yn gallu sicrhau'r canlyniadau yr ydym yn chwilio amdanynt, yn cynnig gwerth da am arian a manteision i gwsmeriaid.' Ni fydd unrhyw gyfaddawdu o ran perfformiad yn unol â safonau coedamaeth, amgylchedd, ac iechyd a diogelwch cadarn.

1.29. Mae CNC wedi cadw copi o'r Cynllun Marchnata Pren drafft sy'n cynnwys sylwadau a wnaed gan Gadeirydd Bwrdd CNC ar y pryd. Mewn ymateb i'r ymrwymiad yn y cynllun i asesu perfformiad yn ogalus wrth dreialu ffyrdd newydd o weitho gan gynnwys gwerthiannau sefydlog a mwy, holodd y cyn Gadeirydd a fydd CNC yn gofyn i gwsmeriaid beth yw'r buddion yn eu tyb nhw ac os felly sut a phryd.

1.30. Mae cofnodion cyfarfod y Bwrdd ar 7 Rhagfyr 2016 yn nodi y cymeradwyodd y Bwrdd y Cynllun Marchnata Pren ar gyfer 2017-22 yn amodol ar nifer bach o newidiadau. Cyhoeddwyd y Cynllun terfynol ym mis Ionawr 2017.

1.31. Ar 10 Mai 2017, cyfarfu Pennaeth Gweithrediadau Masnachol CNC ar y pryd a Phennaeth Cynaeafu CNC â Chyfarwyddwr Gweithredol Cymdeithas Cynnyrch Coedwigoedd y DU. Mae nodiadau cydoesol Cymdeithas Cynnyrch Coedwigoedd y DU o'r cyfarfod hwn yn nodi y dywedwyd wrtho gan y swyddogion a oedd yn bresennol o CNC y cafwyd problemau caffael yn rhan o'r gwerthiannau sefydlog a mwy.

1.32. Trefnodd CNC 30 o gontractau gwerthu sefydlog a mwy a ddechreuodd yn y flwyddyn ariannol 2017-18. Ni aeth dau o'r contractau hyn yn eu blaenau. Dyfarnwyd 15 o'r contractau i dri chontractwr fel y nodir yn Atodiad 2, Tabl 2.

## Gweithredu a Rheoli contractau gwerthu sefydlog a mwy

1.33. Ar 10 Ebrill 2018, cyfarfu swyddogion CNC a gyflogwyd yn Is-adran Pren CNC i drafod y contractau gwerthu sefydlog a mwy. Mae nodiadau'r cyfarfod hwn yn dangos bod aelodau staff yn ymwybodol o nifer o bryderon ynghylch gweithredu contractau gwerthu sefydlog a mwy. Mae'r nodiadau'n cofnodi:

- Bod cynllunwyr yn pryderu eu bod yn cael gwybod ar gam hwyr pa lennyrch i'w cynaeafu yn rhan o'r contractau gwerthu sefydlog a mwy a oedd yn arwain at amryw o anawsterau gweithredol.
- Ni fwriadwyd y dogfennau contract a oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer gwerthiannau sefydlog a mwy i gynnwys elfennau ailstocio. Roedd y dyddiad cau yn y contractau yn gysylltiedig â diwedd y gweithrediadau cynaeafu. Fodd bynnag, o ran gwerthiannau sefydlog a mwy, oherwydd y gallai ailstocio barhau am hyd at bum mlynedd ar ôl cynaeafu, roedd angen telerau cytundebol i barhau y tu hwnt i'r cyfnod cynaeafu.
- Ni chyflwynwyd cynigion ar gyfer contractau gwerthu sefydlog a mwy yn gyson felly roedd asesu cynigion yn broblem (roedd rhai cynigwyr yn

cyflwyno cynnig ar sail pris net, ac eraill yn cyflwyno cynnig yn dangos y pris am bren, peirianneg sifil ac ailstocio ar wahân).

1.34. Mae nodiadau cyfarfod CNC ar 10 Ebrill 2018 yn nodi sawl cam gweithredu a fwriadwyd i fynd i'r afael â'r pryderon ynghylch gwerthiannau sefydlog a mwy. Un o'r camau hynny oedd archwilio'r materion cytundebol ag adran gyfreithiol/cyllid/caffael a llunio contract/proses sy'n cynnwys pob un o'r gweithrediadau. Nid yw CNC wedi rhoi unrhyw wybodaeth i mi fod hyn wedi digwydd. Mae'r nodiadau hefyd yn cofnodi cam gweithredu i drefnu cyfarfod â gweithredwyr i drafod materion gwerthiannau sefydlog a mwy.

1.35. Cynhaliwyd cyfarfod ar 15 Mai 2018 â chynrychiolwyr y diwydiant i drafod gwerthiannau sefydlog a mwy. Mae nodiadau'r cyfarfod hwn yn cofnodi y codwyd nifer o bryderon â CNC ynghylch sut yr oedd y contractau gwerthu sefydlog a mwy yn gweithredu. Roedd y pryderon hyn yn cynnwys:

- Anghysondeb canfyddedig ymhlith staff CNC wrth drin yr wybodaeth sy'n ofynnol i ddyfarnu contractau gwerthu sefydlog a mwy a dechrau gweithrediadau cytundebol.
- A oedd y dogfennau contract ar gyfer gwerthiannau sefydlog a mwy yn addas i'w diben.
- Bod y gofyniad i wneud cais ar sail pris cyfartalog ar gyfer contractau gwerthu sefydlog a mwy yn peri risg annerbyniol i gynigwyr pan fo cyfaint y pren i'w gynaeafu mewn contract gwerthu sefydlog a mwy yn sylweddol lai na hwnnw a amcangyfrifwyd gan CNC.
- Bod ansawdd, tryloywder a chysondeb y data mesur sydd gan CNC ar gyfer ardaloedd yn y contractau gwerthu sefydlog a mwy, a'r ffordd y cyflwynir y data hyn gan CNC yn destun pryder arbennig ac yn peri risg sylweddol i ddarpar brynwyr.

1.36. Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mai 2018, cytunodd swyddogion CNC i weithredu i fynd i'r afael â'r pryderon a fynegwyd. Fodd bynnag, ataliwyd y rhan fwyaf o'r camau a gynigiwyd pan gomisiynodd CNC Grant Thornton i gynnal adolygiad o'i werthiannau pren fel y nodir ym mharagraff 138.

1.37. Trefnodd CNC 43 o gontractau gwerthu sefydlog a mwy a ddechreuodd yn y flwyddyn ariannol 2018-19. Ar 31 Mawrth 2019, nid oedd 33 o'r contractau hyn wedi'u cwblhau. Roedd pob contract yn cynnwys gofyniad i'r prynwr llwyddiannus wneud gwaith seilwaith sifil. Roedd 31 o'r contractau yn cynnwys gofyniad hefyd i wneud gwaith ailstocio'r safle yn y dyfodol. Dyfarnwyd 31 o'r contractau i dri chontractwr fel y nodir yn Atodiad 2, Tabl 3.

1.38. Ym mis Gorffennaf 2018, rhoddodd cyn Archwilydd Cyffredinol Cymru amod ar ei farn ar ddatganiadau ariannol 2017-18 CNC oherwydd pryderon ynghylch dros 59 o gontractau gwerthu pren yr oedd CNC wedi'u dyfarnu yn ystod y flwyddyn honno. Hon oedd y drydedd flwyddyn yn olynnol i'r Archwilydd Cyffredinol roi amod ar ei farn ar reoleidd-dra oherwydd pryderon ynghylch contractau gwerthu pren. Derbyniodd uwch swyddogion CNC y bu problemau difrifol ynghlwm wrth

werthiannau pren CNC a oedd yn hanesyddol, wedi ymwreiddio'n ddwfn ac yn helaeth. O ystyried hyn, penderfynodd y Prif Weithredwr gyda chefnogaeth Bwrdd CNC gomisiynu Grant Thornton i gynnal adolygiad annibynnol o drefniadau llywodraethu CNC o werthiannau pren.

1.39. Dechreuodd Grant Thornton brosiect helaeth ac yn ystod ei waith canfu bryderon sylweddol ynghylch contractau gwerthu sefydlog a mwy. Pan godwyd ymwybyddiaeth CNC o ganfyddiadau'r adolygiad a oedd yn dod i'r amlwg, cymerodd gamau ar unwaith i atal dyfarniad o gontractau gwerthu sefydlog a mwy yn y dyfodol, hyd nes yr aed i'r afael â'r pryderon.

1.40. Ym mis Chwefror 2019, cyflwynodd Grant Thornton adroddiad yn nodi canfyddiadau ei adolygiad, a chyhoeddodd CNC yr adroddiad i'r cyhoedd. Roedd yr adroddiad yn nodi pryderon penodol ynghylch gweithrediad a rheolaeth CNC o'r gwerthiannau sefydlog a mwy. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Nid yw CNC wedi gallu darparu tystiolaeth ei fod wedi ystyried yn briodol effaith y gwerthiannau sefydlog a mwy ar delerau contractau ac adroddiadau ariannol. Nid oedd ychwaith wedi gallu darparu dogfennau yn dystiolaeth bod y contractau gwerthu sefydlog a mwy yn cynrychioli'r gwerth gorau am arian.
- Nid oedd gan CNC broses gymeradwyo eglur ar gyfer cyflwyno contractau gwerthu sefydlog a mwy.
- Ni fu swyddogaeth gaffael CNC yn rhan ddigonol o ddatblygu'r gweithgarwch gwerthiannau sefydlog a mwy; ac o ystyried bod gwerthiannau sefydlog a mwy yn cynnwys gwrthbwyso cost caffael gwaith a gwasanaethau o incwm werthiannau pren, yr oedd yn rhesymol disgwyl y byddai'r trefniadau wedi'u cytuno'n llwyr gan yr adran gaffael cyn rhoi unrhyw gontractau gwerthu sefydlog a mwy ar osod.
- Roedd CNC wedi comisiynu adolygiad cyfreithiol allanol yn 2016 o amryw o gontractau, gan gynnwys gwerthiannau sefydlog a mwy ond ni weithredwyd ar y cyngor a gafwyd. Nid oedd adran gyfreithiol CNC yn rhan o oruchwylio'r cyngor cyfreithiol allanol.
- Nid oedd CNC wedi diweddaru ei ganllawiau ar gyfer contractau gwerthu pren i ystyried cyflwyniad y contractau gwerthu sefydlog a mwy.
- Nid oedd CNC wedi monitro'n effeithiol lefel y gwasanaethau yn y dyfodol (ailblannu coed) a oedd yn ddyledus i CNC o fewn contractau gwerthu sefydlog a mwy, ac nid oedd yn glir i ba raddau yr oedd CNC yn agored i dalu am wasanaeth cyn ei ddarparu trwy gytundeb i dderbyn refeniw llai o werthiannau.
- Codwyd pryderon gyda Grant Thornton ynghylch cadernid telerau contractau gwerthu sefydlog a mwy CNC ac a oedd yr amserlenni cytundebol ar gyfer gwasanaethau yn y dyfodol i'w cynnal gan y cwsmer yn ddigonol i sicrhau ansawdd y gwaith a wnaed.

- Nid oedd swyddogaeth gyllid CNC wedi cael gwybodaeth ariannol i ddangos ar wahân werth yr elfennau o'r contractau gwerthu sefydlog a mwy, h.y. incwm o werthiannau, gwaith i'w wneud a gwasanaethau i'w darparu gan y cwsmer. Yr unig wybodaeth a oedd ar gael i'r swyddogaeth Gyllid oedd yr incwm o werthiannau pren ar ôl gwrthbwyso cost y gwaith a'r gwasanaethau.

1.41. Pan gafodd CNC y canfyddiadau cychwynnol o adroddiad Grant Thornton aeth ati ar unwaith i atal unrhyw ddyfarniad arall o gontractau gwerthu sefydlog a mwy.

1.42. Ym mis Ionawr 2019, ar ôl derbyn adroddiad Grant Thornton, sefydlodd CNC brosiect Llywodraethu Gwerthiannau Pren â'r nod o sicrhau gweithrediad effeithiol o'r holl fesurau gwella yn swyddogaeth Gwerthiannau Pren CNC a nodwyd gan CNC ei hun, adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol ac adolygiad Grant Thornton. Er bod llawer o'r gwelliannau hyn wedi'u gweithredu eisoes, bydd angen amser i ddatrys rhai materion.

1.43. Mae CNC hefyd wedi cytuno ar strategaeth drefnu er mwyn ceisio trefnu dileu unrhyw ofynion peirianneg sifil ac ailstocio cytundebol â'i gwsmeriaid gwerthiannau sefydlog a mwy.

1.44. Ar ddechrau 2019, gofynnodd CNC am gyngor cyfreithiol ar ba un a oedd rheoliadau caffael yn berthnasol i gontractau gwerthu sefydlog a mwy. Cafodd CNC gyngor bod contractau gwerthu sefydlog a mwy yn gontractau cymysg a oedd yn cynnwys elfennau gwerthu a chaffael gwaith a gwasanaethau, ac felly wedi'u cynnwys yn nghwmpas Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.

# Atodiad 2

## Contractau Gwerthu Sefydlog a Mwy a Ddyfarnwyd gan CNC

### Crynodeb o'r contractau gwerthu sefydlog a mwy a ddyfarnwyd gan CNC o 2015 hyd heddiw fesul blwyddyn ariannol

2.1 Trefnodd CNC 10 o gontractau gwerthu sefydlog a mwy a ddechreuodd yn y flwyddyn ariannol 2016-17. Ni aeth dau o'r contractau a ddyfarnwyd yn eu blaenau. Roedd pob contract yn cynnwys gofyniad i'r prynwr llwyddiannus wneud gwaith seilwaith sifil. Roedd dau o'r contractau yn cynnwys gofyniad hefyd i wneud gwaith ailstocio'r safle yn y dyfodol (Tabl 1).

Tabl 1: Contractau gwerthu sefydlog a mwy a ddechreuodd yn y flwyddyn ariannol 2016-17, cyfaint a gwerth fesul contractwr

| Contractwyr Llwyddiannus | Nifer y contractau a ddyfarnwyd a aeth yn eu blaenau[1] | Cyfaint y pren a gontractwyd $m^3$ obs | Amcangyfrif o werth incwm net contractau i CNC[2] | Cyfaint Gwirioneddol y pren a werthwyd $m^3$ obs | % o gyfanswm y cyfaint a werthwyd | Incwm cytundebol net a gafwyd gan CNC |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Contractwr 1 | 3 | 6,702 | £133,555 | 7,258 | 24% | £141,645 |
| Contractwr 2 | 3 | 5,069 | £88,338 | 6,547 | 18% | £117,223 |
| Contractwr 3 | 1 | 15,749 | £488,226 | 13,865 | 55% | £463,506 |
| Contractwr arall | 1 | 838 | £25,688 | 549 | 3% | £16,852 |
| **Cyfanswm** | **8** | **28,358** | **£735,807** | **28,219** | **100%** | **£739,226** |

[1] Ni aeth un contract arall i a ddyfarnwyd i Gontractwr 1 ac un contract arall a ddyfarnwyd i gontractwr arall yn eu blaenau.

[2] Mae incwm net yn cynrychioli'r pris a delir i CNC gan y contractwr am y pren wedi'i wrthbwyso gan y contractwr am wneud gwaith seilwaith sifil ac ailstocio.

2.2 Trefnodd CNC 30 o gontractau gwerthu sefydlog a mwy a ddechreuodd yn y flwyddyn ariannol 2017-18. Ni aeth dau o'r contractau hyn yn eu blaenau. Roedd pob contract yn cynnwys gofyniad i'r prynwr llwyddiannus wneud gwaith seilwaith

sifil. O’r contractau a aeth yn eu blaenau, roedd 10 yn cynnwys gofyniad hefyd i wneud gwaith ailstocio’r safle yn y dyfodol. Dyfarnwyd pymtheg o’r contractau i dri chontractwr (Tabl 2)

Tabl 2: Contractau gwerthu sefydlog a mwy a ddechreuodd yn y flwyddyn ariannol 2017-18, cyfaint a gwerth fesul contractwr

| Contractwyr Llwyddiannus[1] | Nifer y contractau a ddyfarnwyd | Cyfaint y pren a gontractwyd $m^3$ obs | Amcangyfrif o werth incwm net contractau i CNC[2] | Cyfaint gwirioneddol y pren a werthwyd $m^3$ obs hyd at 31 Mawrth 2019 | Amcangyfrif o gyfaint y pren $m^3$ obs a gaiff ei werthu yn 2019-20[3] | % o gyfanswm y cyfaint a gontractwyd i’w ddosbarthu (2018-19 a 2019-20) | Cyfanswm incwm cytundebo i’w dderby gan CNC (gwirioned ac amcangyf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Contractwr 1 | 7 | 38,208 | £725,028 | 39,699 | 3,472 | 34% | £796,01 |
| Contractwr 2 | 7 | 22,402 | £455,995 | 30,206 | 0 | 24% | £611,35 |
| Contractwr 3 | 1 | 1,833 | £73,191 | 1,216 | 0 | 1% | £48,574 |
| Contractwyr eraill (7) | 13 | 48,748 | £1,291,529 | 44,344 | 6,432 | 41% | £1,360,7 |
| **Cyfanswm** | **28** | **111,191** | **£2,545,743** | **115,465** | **9,904** | **100%** | **£2,816,6** |

[1] Dyfarnwyd un contract arall i Gontractwr 1 a Chontractwr 2 a dyfarnwyd contract i gontractwr arall ond ni aeth yn ei flaen.

[2] Mae incwm net yn cynrychioli’r pris a delir i CNC gan y contractwr am y pren wedi’i wrthbwyso gan y contractwr am wneud gwaith seilwaith sifil ac ailstocio.

[3] Ar sail gwerthu 100% o’r cyfaint a gontractwyd.

2.3 Trefnodd CNC 43 o gontractau gwerthu sefydlog a mwy a ddechreuodd yn y flwyddyn ariannol 2018-19. Ar 31 Mawrth 2019, nid oedd 33 o’r contractau hyn wedi’u cwblhau. Roedd pob contract yn cynnwys gofyniad i’r prynwr llwyddiannus wneud gwaith seilwaith sifil. Roedd 31 o’r contractau yn cynnwys gofyniad hefyd i wneud gwaith ailstocio’r safle yn y dyfodol. Dyfarnwyd 31 o’r contractau i dri chontractwr, Tabl 3.

Tabl 3: Cyfaint contractau gwerthu sefydlog a mwy ac amcangyfrif o alldro fesul contractwr (contractau sy'n dechrau yn 2018-19)

| Contractwyr Llwyddiannus | Nifer y contractau a ddyfarnwyd | Cyfaint y pren a gontractwyd m³ obs | Amcangyfrif o werth incwm net contractau i CNC[1] | Cyfaint gwirioneddol y pren a werthwyd m³ obs hyd at 31 Mawrth 2019 | Amcangyfrif o gyfaint y pren m³ obs a gaiff ei werthu yn 2019-20[2] | % o gyfanswm y cyfaint a gontractwyd i'w ddosbarthu (2018-19 a 2019-20) | Cyfanswm Incwm cytundebo i'w dderbyr gan CNC (gwirioned ac amcangyfr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Contractwr 1 | 16 | 78,895 | £2,905,420 | 39,297 | 42,112 | 39% | £3,375,37 |
| Contractwr 2 | 13 | 73,877 | £2,302,569 | 46,265 | 32,291 | 38% | £2,707,58 |
| Contractwr 3 | 2 | 11,076 | £519,128 | 5,861 | 5,204 | 5% | £585,55 |
| Contractwyr eraill (9) | 12 | 34,910 | £884,041 | 16,157 | 20,662 | 18% | £1,050,37 |
| **Cyfanswm** | **43** | **198,747** | **£6,611,158** | **107,580** | **100,269** | **100%** | **£7,718,89** |

[1] Mae incwm net yn cynrychioli'r pris a delir i CNC gan y contractwr am y pren wedi'i wrthbwyso gan y contractwr am wneud gwaith seilwaith sifil ac ailstocio.
[2] Ar sail gwerthu 100% o'r cyfaint a gontractwyd.

2.4 Yn y blynyddoedd ariannol 2016-17, 2017-18 a 2018-19, amcangyfrifwyd bod gan y 79 o gontractau gwerthu sefydlog a mwy a aeth yn eu blaenau gwerth contract net o £9,892,708. Mae CNC wedi amcangyfrif bod yr elfennau peirianneg sifil ac ailstocio o'r contractau hyn ryw £2,063,637. Gwerth gros gwerthiannau pren a gontractwyd y contractau hyn i CNC felly oedd oddeutu £11,956,345. Hysbysebwyd yr holl gyfleoedd contract gwerthu sefydlog a mwy a gwahoddwyd darpar gwsmeriaid i gyflwyno cynigion trwy borth e-werthiannau CNC. Mae Tabl 4 yn nodi cyfaint a gwerth y pren a gontractwyd ac a werthwyd neu y disgwylir ei werthu ers dechrau'r gwerthiannau sefydlog a mwy.

Tabl 4: Cyfaint contractau gwerthu sefydlog a mwy ac amcangyfrif o alldro fesul contractwr o 2016-17 hyd heddiw

| Contractwyr Llwyddiannus | Nifer y contractau a ddyfarnwyd | Cyfaint y pren a gontractwyd $m^3$ obs | Amcangyfrif o werth incwm net contractau i CNC[1] | Cyfaint gwirioneddol y pren a werthwyd $m^3$ obs hyd at 31 Mawrth 2019 | Amcangyfrif o gyfaint y pren $m^3$ obs a gaiff ei werthu yn 2019-20[2] | Amcangyfrif o gyfanswm y cyfaint $m^3$ obs o werthiannau sefydlog a mwy | Cyfanswm Incwm cytundebo i'w dderbyn gan CNC (gwirioned ac amcangyfr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Contractwr 1 | 26 | 123,805 | £3,764,003 | 86,253 | 45,584 | 131,837 | £4,313,03 |
| Contractwr 2 | 23 | 101,348 | £2,846,902 | 83,018 | 32,291 | 115,309 | £3,436,16 |
| Contractwr 3 | 4 | 28,648 | £1,080,545 | 20,943 | 5,204 | 26,147 | £1,097,63 |
| Contractwyr eraill (12) | 26 | 84,495 | £2,201,258 | 61,050 | 27,094 | 88,144 | £2,427,94 |
| **Cyfanswm** | **79** | **338,296** | **£9,892,708** | **251,264** | **110,173** | **361,437** | **£11,274,7** |

[1] Mae incwm net yn cynrychioli'r pris a delir i CNC gan y contractwr am y pren wedi'i wrthbwyso gan y contractwr am wneud gwaith seilwaith sifil ac ailstocio.

[2] Ar sail gwerthu 100% o'r cyfaint a gontractwyd.

## Tueddiadau o ran niferoedd, cyfaint a gwerthoedd contractau gwerthu sefydlog a mwy dros amser

2.5 Ers cyflwyno'r contractau gwerthu sefydlog a mwy yn 2016-17, mae defnydd o'r math hwn o gontract wedi cynyddu, (Tabl 5).

| | Nifer y contractau a aeth yn eu blaenau a'r dyddiad dechrau yn y flwyddyn ariannol | Cyfaint a gontractwyd ($m^3$ obs) | Gwerth contract net ar sail cyfaint contract wedi'i luosi â'r pris cyfartalog | Cyfaint y pren a werthwyd hyd at 31 Mawrth 2019 + amcangyfrif i'w werthu yn 2019-20 | Gwerth net cyfartalog y contractau |
|---|---|---|---|---|---|
| 2016-17 | 8 | 28,358 | £735,807 | 28,219 | £91,975 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2017-18 | 28 | 111,191 | £2,545,743 | 125,369 | £90,919 |
| 2018-19 | 43 | 198,747[1] | £6,611,158 | **207,849[3]** | £153,748 |
| **Cyfanswm** | **79** | **338,296** | **£9,892,708** | **361,437** | **£125,224** |

[1] Ataliwyd contractau Gwerthu Sefydlog a Mwy ym mis Rhagfyr 2018.

[2] Mae incwm net yn cynrychioli'r pris a delir i CNC gan y contractwr am y pren, wedi'i wrthbwyso gan y contractwr yn gwneud gwaith seilwaith sifil ac ailstocio.

[3] Ar 31 Mawrth 2019, roedd dau gontract a ddechreuodd yn 2017-18, a 33 o gontractau a ddechreuodd yn 2018-19 yn parhau. Cyfanswm y cyfaint a gontractwyd yn y contractau hyn i'w gwerthu yn 2019-20 oedd 110,173$m^3$ obs o bren.

2.6 Mae pob contract gwerthu sefydlog a mwy yn cynnwys cyfaint a gontractwyd o bren i'w werthu gan CNC i'r contractwr am bris cyfartalog a bennwyd. Mae'r contract hefyd yn darparu rhestr o'r amcangyfrif o'r cymysgedd o gynnyrch pren yn y cyfaint a gontractwyd. Mae'r cyfaint a bennir yn y contract wedi'i bennu gan CNC ar sail asesiad o'r pren sydd ar gael ar y safle cynaeafu. Nid oedd asesiad o'r cyfaint pren yn wyddoniaeth union, a bydd elfen o oddefiant bob amser rhwng y cyfaint a gontractwyd a'r cyfaint a gynaeafwyd o dan gontractau gwerthu coed sy'n sefyll.

2.7 O ran contractau gwerthu sefydlog a mwy yr oedd yn hollbwysig bod asesiadau CNC o'r pren oedd ar gael yn ardal y contract i'w werthu trwy werthiannau sefydlog a mwy mor gywir â phosibl oherwydd bod contractau gwerthu sefydlog a mwy yn gweithredu ar sail pris cyfartalog y dunnell o bren a werthwyd. Roedd angen i brynwyr adfer yn llawn y gost o wneud gwaith peirianneg sifil a'r costau cynaeafu a ysgwyddwyd yn y cyfaint a gontractwyd. Fel y nodir yn Atodiad 1, paragraff 1.35, cododd contractwyr bryderon mewn cyfarfod a gynhaliwyd â CNC ar 15 Mai 2018 os nad oedd yr ardaloedd i'w cynaeafu o dan gontractau gwerthu sefydlog a mwy yn cynnwys cyfaint y pren a gontractwyd i'w werthu, roedd risg y byddant yn colli arian. Mae hefyd yn wir i'r gwrthwyneb, os oedd cyfaint y pren a werthwyd mewn contractau gwerthu sefydlog a mwy yn fwy na'r cyfaint a gontractwyd, roedd risg y byddai CNC yn gwerthu pren am lai na gwerth y farchnad.

2.8 Cymharodd fy archwilwyr y cyfaint alldro ar gontractau gwerthu sefydlog a mwy a gwblhawyd erbyn 31 Mawrth 2019 â'r cyfaint a gontractwyd. Dim ond saith o'r 44 o gontractau a gwblhawyd oedd â chyfaint alldro o fewn 10% o'r cyfaint a gontractwyd.

Roedd gan y mwyafrif (59%) o'r contractau a gwblhawyd erbyn 31 Mawrth 2019, gyfaint alldro o fwy na 110% o hwnnw a gontractwyd, a 18% o gontractau gyfaint alldro o fwy na 150% o hwnnw a gontractwyd. Roedd y cyfaint alldro ar 11 o gontractau yn amrywio dros 50% o'r hyn a gontractwyd.

Tabl 6: Alldro o’i gymharu â’r cyfaint a gontractwyd ar gontractau gwerthu sefydlog a mwy a gwblhawyd erbyn 31 Mawrth 2019 fesul contractwr

| | Nifer y contractau gwerthu sefydlog a mwy a gwblhawyd | Nifer y contractau ag alldro o fewn 10% o’r cyfaint a gontractwyd | Nifer y contractau ag alldro o -10% i - 50% yn is na’r cyfaint a gontractwyd | Nifer y contractau ag alldro o 50%+ yn is na’r cyfaint a gontractwyd | Nifer y contractau ag alldro o 10% i 50% yn fwy na’r cyfaint a gontractwyd | Nifer y contractau ag alldro o 50%+ yn fwy na’r cyfaint a gontractwyd | alldro yn fwy/yn is cyfaint a gontractwyd – yr holl gontractau a gwblhawyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Contractwr 1 | 11 | 2 | 2 | 0 | 5 | 2 | 14.6% |
| Contractwr 2 | 15 | 4 | 1 | 1 | 7 | 3 | 24.2% |
| Contractwr 3 | 2 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | -14.6% |
| Contractwr Eraill | 16 | 1 | 3 | 2 | 6 | 3 | 7.7% |
| **Cyfanswm** | **44** | **7** | **8** | **3** | **18** | **8** | **10.3%** |

## Awdurdodi Contractau Gwerthu Sefydlog a Mwy

2.9 Mae swyddogaethau CNC wedi’u nodi yng Ngorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 (y Gorchymyn). Mae’r swyddogaethau hyn yn cynnwys cyflawni unrhyw swyddogaeth ddirprwyedig y Comisiynwyr Coedwigaeth. Felly mae gan CNC y pŵer i reoli’r ystad goed gyhoeddus a gwneud unrhyw benderfyniadau angenrheidiol i gyflawni’r swyddogaeth honno’n effeithiol. Mae Gorchymyn 2012 yn nodi y caiff CNC ddirprwyo’r cyfrifoldeb i arfer ei swyddogaethau i bwyllgor, is-bwyllgor, aelod neu weithiwr yn CNC. Mae hyn yn cynnwys trefnu contractau â chyflenwyr neu brynwyr allanol.

2.10 Cymeradwyodd Bwrdd CNC Gynllun Dirprwyo Ariannol o’r enw ‘Rheoli Ein Harian’ ac o dan hwn mae holl weithgareddau ariannol CNC wedi’u dyrannu i lefel awdurdod y cytunwyd arni neu ddeiliad swydd penodol. Mae’n caniatáu i’r Bwrdd ddyrannu cyfrifoldeb gwneud penderfyniadau ar gyfer materion ariannol penodol. Mae’r Cynllun Dirprwyo yn ddull y mae Bwrdd CNC yn dirprwyo ei swyddogaeth i drefnu contractau i aelodau staff unigol ac mae’n ddull o reoli risg ac uniondeb ariannol. Mae’r Cynllun Dirprwyo Ariannol yn nodi’r deiliaid swydd ag awdurdod i drefnu contractau gwerthu pren, a gwerthoedd contractau y mae eu dirprwyaeth yn eu caniatáu.

2.11 Yn rhan o’r archwiliad o gyfrifon 2018-19 CNC, archwiliodd fy archwilwyr 13 o gontractau gwerthu sefydlog a mwy i sicrhau eu bod wedi’u hawdurdodi yn unol â’r Cynllun Dirprwyo Ariannol. Canfu fy archwilwyr er bod pob contract wedi’i

awdurdodi gan swyddogion CNC, fod chwech wedi'u hawdurdodi gan swyddogion CNC nad oedd ganddynt y ddirprwyaeth ofynnol i awdurdodi dyfarniad contractau am y gwerth a gymeradwywyd.

2.12 Cyfanswm gwerth y contractau a oedd yn rhan o'r prawf sampl nad oeddent wedi'u hawdurdodi'n briodol oedd £2,405,375.

2.13 Profodd fy archwilwyr hefyd sampl o wyth estyniad i gontractau gwerthu sefydlog a mwy i sicrhau bod yr estyniadau i'r contract wedi'u hawdurdodi yn unol â Chynllun Dirprwyo Ariannol CNC. Canfu fy archwilwyr er bod yr holl estyniadau i gontractau wedi'u hawdurdodi gan swyddogion CNC, fod pedwar wedi'u hawdurdodi gan swyddogion CNC nad oedd ganddynt y ddirprwyaeth ofynnol i awdurdodi dyfarniad contractau am y gwerth a gymeradwywyd.

2.14 Canfu'r profion y cynhaliodd fy archwilwyr nad oedd y methiant i gydymffurfio â'r Cynllun Dirprwyo Ariannol wrth ddyfarnu contractau gwerthu pren yn berthnasol dim ond i gontractau gwerthu sefydlog a mwy. Tua diwedd 2018, rhoddodd CNC drefniadau gwell ar waith i sicrhau bod contractau a ddyfernir yn y dyfodol yn cydymffurfio â'r Cynllun Dirprwyo Ariannol.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel/Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Cadeirydd, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

**Cyfeirnod:** AC/176/caf
**Dyddiad cyhoeddi:** 13 Ionawr 2020

Annwyl Gadeirydd

## Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o lywodraethu gwerthiannau coed

Wrth gynnal archwiliad ar gyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) 2015-16, 2016-17 a 2017-18, nododd fy rhagflaenydd ddiffygion sylweddol yn y ffordd yr oedd CNC yn gwerthu coed i'r farchnad. Roedd y rhain yn cynnwys pryderon ynghylch gwneud penderfyniadau, trefniadau contractio, cadw cofnodion a chydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rheoliadol. Parodd y materion hyn i'm rhagflaenydd amodi ei farn ynghylch rheoleidd-dra cyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer pob un o'r blynyddoedd cyfrif hynny. Fe wnaethant hefyd arwain y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i gynnal ymchwiliadau a chyhoeddi adroddiadau beirniadol ynglŷn â pherfformiad Cyfoeth Naturiol Cymru ar y materion hyn.

Ar ddiwedd 2018, comisiynodd Cyfoeth Naturiol Cymru Grant Thornton i gynnal adolygiad ar ei waith yn llywodraethu gwerthiannau coed. Diben yr adolygiad oedd cynorthwyo Cyfoeth Naturiol Cymru i fynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a'r PCC. Yn dilyn hynny, cyhoeddwyd adroddiad Grant Thornton ym mis Chwefror 2019 ac roedd yn nodi llawer o feysydd i'w gwella. Roedd y rhain yn amrywio o brosesau rheoli sylfaenol i feysydd lefel uwch megis awtomeiddio, adrodd a rhyngweithio â swyddogaethau canolog. Derbyniodd Cyfoeth Naturiol Cymru ganfyddiadau adolygiad Grant Thornton yn llawn.

Ym mis Ionawr 2019, ar ôl dod yn ymwybodol o ganfyddiadau newydd Grant Thornton, sefydlodd CNC brosiect mewnol 'Llywodraethu Gwerthiannau Coed' i fynd i'r afael â'r hen wendidau a nodwyd yn ei waith yn rheoli gwerthiannau coed a'r diffygion ehangach yn nhrefniadau llywodraethu a goruchwylio CNC ar gyfer y maes hwn o'i weithrediadau. Mae'r prosiect yn mynd i'r afael yn benodol â'r argymhellion sy'n deillio o adolygiad Grant Thornton ac o argymhellion ar gyfer gwella a nodwyd yn fy Llythyrau Rheoli i Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ogystal â materion ychwanegol a nodwyd gan CNC ei hun.

Fel y nodwyd yn llythyr Cyfoeth Naturiol Cymru at y PCC ar 9 Rhagfyr 2019, mae'r prosiect yn un eang, yn cwmpasu chwe ffrwd waith gysylltiedig. Er bod y prosiect yn canolbwyntio ar wella'r ffordd y mae CNC yn rheoli ei werthiannau coed, mae ei

gwmpas hefyd yn cynnwys ystyried materion llywodraethu a chydymffurfio ehangach, gyda'r nod o sicrhau bod y trefniadau'n gadarn ac yn gyson ar draws holl weithrediadau Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae CNC wedi strwythuro'r prosiect mewn dau gam. Mae cam un, sef y cyfnod 'adfer', bellach wedi'i gwblhau a dechreuodd cam dau, sef y cam 'gwreiddio', ym mis Rhagfyr 2019 a disgwylir iddo ddod i ben ym mis Mawrth 2020.

Ar ddechrau 2019, yn dilyn pryderon a godwyd yn adroddiad Grant Thornton yn ymwneud â math o gontract gwerthu coed a gyflwynwyd gyntaf gan CNC yn 2016-17 o'r enw 'Gwerthiant Sefydlog a Mwy' (SS +), cynhaliodd fy archwilwyr adolygiad o'r contractau hyn fel rhan o archwiliad cyfrifon 2018-19. Deuthum i'r casgliad bod y contractau hyn yn afreolaidd ac o ganlyniad, ym mis Gorffennaf 2019, rhoddais farn amodol ar reoleidd-dra cyfrifon 2018-19 Cyfoeth Naturiol Cymru. Rwyf wedi darparu Memorandwm Atodol i'r PCC sy'n egluro'n fanwl fy rhesymau dros y farn amodol. Fodd bynnag, rwyf o'r farn fod y materion yr wyf wedi adrodd amdanynt mewn perthynas â chontractau SS+ wedi codi o benderfyniadau a wnaed nifer o flynyddoedd yn ôl a'u bod yn perthyn i gyfnod cyn y trefniadau gwell y mae CNC bellach wedi'u sefydlu. Nodaf hefyd fod Cyfoeth Naturiol Cymru, cyn gynted ag y daeth yn ymwybodol o bryderon ynghylch contractau SS +, wedi atal dyfarnu unrhyw gontract pellach o'r math hwn.

Ym mis Gorffennaf 2019, adroddodd Grant Thornton am ganfyddiad adolygiad pellach y comisiynwyd hwy i'w gynnal ar y cynnydd yr oedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ei wneud o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn ei adroddiad ym mis Chwefror 2019. Daeth Grant Thornton i'r casgliad bod CNC wedi gwneud cynnydd da hyd hynny, gan nodi pwysigrwydd parhau i ganolbwyntio ar lywodraethu ar ôl i'r prosiect ddod i ben. Fe wnaethant hefyd dynnu sylw at nifer o heriau allweddol y byddai angen i CNC sicrhau ei fod yn ymdrin â hwy wrth i'r prosiect barhau.

Ym mis Hydref 2019, cynhaliodd fy archwilwyr asesiad lefel uchel o'r cynnydd y mae CNC yn ei wneud ar hyn o bryd ar ei Brosiect Llywodraethu Gwerthiannau Coed a oedd yn cynnwys trafodaethau gyda'r swyddogion cyfrifol perthnasol, adolygu'r dystiolaeth ategol a rhoi prawf sylweddol ar gontractau gwerthu coed. Canolbwyntiai'r gwaith archwilio yr ymgymerwyd ag ef ar y cynnydd a wnaed gan CNC yng ngham un y prosiect i fynd i'r afael â'r diffygion, a nodwyd yn adroddiad Grant Thornton ac mewn adroddiadau archwilio blaenorol.

Nodir isod grynodeb byr o gasgliadau'r gwaith hwn. Rwyf wedi bodloni fy hun ynghylch y canlynol:

- Mae ffrydiau gwaith y prosiectau a'r prosiect yn ei gyfanrwydd yn cael eu rheoli a'u harchwilio'n briodol ac yn gadarn. Mae cyfeiriad a symbyliad lefel uwch clir wedi ei roi i'r prosiect, gyda'r cywair wedi ei osod yn glir o'r cychwyn cyntaf gan y Bwrdd a'r Prif Weithredwr. Mae uwch swyddogion wedi bod yn ymwneud â'r prosiect ei hun ac yn cynorthwyo i raddau sylweddol o'r dechrau ac mae grŵp goruchwylio Bwrdd CNC wedi bod yn craffu arno'n fanwl ac yn herio. Mae lefel y craffu a roddwyd i goed ac i'r rheolaethau

sefydliadol ehangach drwy Archwilio Mewnol a gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg wedi gwella hefyd.

- Mae CNC wedi llunio cynlluniau gweithredu sy'n briodol fanwl i gefnogi pob un o ffrydiau gwaith y prosiect ac rwyf yn fodlon bod cynnydd da yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt ar draws yr holl ffrydiau gwaith. Ar adeg yr adolygiad, roedd y ffrwd waith ariannol y tu ôl i'r man yr oedd angen iddi fod o ran cynnydd ond roedd Cyfoeth Naturiol Cymru ei hun wedi cydnabod hyn ac wedi rhoi cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â'r mater. Mae'n braf nodi nad ar werthiannau coed yn unig y mae'r prosiect wedi canolbwyntio, ond ei fod hefyd wedi ystyried y trefniadau llywodraethu ehangach yr oedd angen eu cryfhau ac mae'r camau gweithredu yn cyd-fynd â'r Cynllun Sefydliadol newydd a gyflwynwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru yr haf hwn.
- Gwnaed gwaith sylweddol i sicrhau bod cyfres newydd o safonau llywodraethu gwerthu coed yn adlewyrchu'r ffordd y mae CNC yn disgwyl i'w swyddogion weithredu wrth werthu coed. Cefnogwyd hyn gan hyfforddiant a gwelliannau mewn rheolaethau cydymffurfio. Er bod cynnydd ardderchog wedi'i wneud hyd yn hyn, mae'n hanfodol, fel rhan o gam dau y prosiect, mae'r holl sylfeini'n cael eu gosod er mwyn sicrhau bod y safonau hyn yn cael eu hymgorffori'n llawn yn niwylliant a gweithrediadau'r staff gwerthu coed o ddydd i ddydd. Oni bai a hyd nes y bydd y staff yn cymryd meddiant o'r safonau, mae yna berygl, unwaith y daw'r prosiect i ben, y gellid dychwelyd at safonau ymarfer annerbyniol wrth werthu coed.
- Mae Cynllun Sefydliadol newydd CNC wedi newid y ffordd y mae'n gweithredu'n sylfaenol, gyda thimau newydd, sy'n seiliedig ar le, a byrddau busnes a sefydlwyd i annog cydarwain a chydbenderfynu. Mae hyn wedi helpu i chwalu seilos sefydliadol drwy ddod â staff o wahanol ddisgyblaethau gyda phrofiadau gwahanol at ei gilydd a helpu CNC i nodi enghreifftiau o arferion gwaith gwael a mynd i'r afael â hwy. Fodd bynnag, roedd yn amlwg oddi wrth y trafodaethau a gynhaliodd fy archwilwyr gyda swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru nad oedd pawb yn ddigon clir ynglŷn â'r llinellau atebolrwydd o fewn y strwythur sefydliadol newydd ac, yn arbennig, y berthynas rhwng cyfrifoldebau swyddogaethol a chyfrifoldebau sy'n seiliedig ar le. Fodd bynnag, dim ond yn ddiweddar y cyflwynwyd y strwythur newydd hwn, ac mae CNC wedi cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod llinellau atebolrwydd a chyfrifoldebau gwneud penderfyniadau yn glir ac wedi eu deall yn llawn.

I gloi, rwyf yn cytuno ag asesiad Cyfoeth Naturiol Cymru bod cynnydd da wedi'i wneud hyd yn hyn ar y Prosiect Llywodraethu Gwerthiannau Coed. Mae'r prosiect wedi dechrau ar ei ail gam, sy'n canolbwyntio ar atgyfnerthu a chadarnhau'r newidiadau a'r cynnydd a wnaed hyd yma. Yn ddiau, mae hyn yn rhan allweddol o'r prosiect ac mae'n rhaid i CNC ddal i ganolbwyntio i'r un graddau ar y prosiect ag y mae wedi gwneud hyd yn hyn os yw i gyflawni a chadarnhau'r newidiadau sylfaenol sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r gwendidau fu'n bod ers amser maith fel y nodwyd yn gynharach.

Gobeithio y bydd y diweddariad hwn o gymorth i chi a'ch Pwyllgor yn eich gwaith craffu sy'n parhau.

Yr eiddoch yn gywir.

**ADRIAN CROMPTON**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

# Eitem 5

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee

Shan Morgan
Ysgrifennydd Parhaol
Llywodraeth Cymru

**20 Tachwedd 2019**

Annwyl Shan

Ym mis Medi 2019, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol gyfres o allbynnau diddorol o'i waith yn trafod llesiant pobl ifanc. Nid yw'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi trafod yr adroddiadau yn ffurfiol eto, a bydd yn ystyried y ffordd orau i fwrw ymlaen ag unrhyw waith craffu pellach ochr yn ochr ag unrhyw ddiddordeb yn y materion hyn gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Rwy'n cydnabod bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi mabwysiadu dull gwahanol o gyflwyno allbynnau'r adroddiadau hyn ac nad oeddent yn cynnwys argymhellion ffurfiol penodol i Lywodraeth Cymru ymateb iddynt. Serch hynny, byddem yn croesawu ymateb gan Lywodraeth Cymru i gefnogi ein proses ni o wneud penderfyniadau. Yn benodol, rydym yn gofyn am fanylion ynghylch sut mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y gwahanol faterion a godwyd gan adroddiad cryno yr Archwilydd Cyffredinol fel rhan o'r gwaith parhaus i gryfhau ei brosesau cyffredinol ar gyfer gwneud a chyflawni polisïau. Gall hyn fod ar gyfer gwasanaethau sy'n effeithio ar bobl ifanc neu'n fwy cyffredinol ac yng nghyd-destun ehangach y ffyrdd o weithio a ddisgwylir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Gofynnwn hefyd am fanylion ynghylch sut mae'r timau polisi sy'n gyfrifol am y pum maes penodol a gwmpesir gan adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol yn ystyried ac yn ymateb i'r 'cyfleoedd ar gyfer gwelliant' a amlygwyd ym mhob achos.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565

Byddem yn ddiolchgar pe baech yn ymateb erbyn toriad y Nadolig fel y gall y Pwyllgor ystyried hyn yn bwysig ar ôl dychwelyd yn y flwyddyn newydd.

Yn gywir,

**Nick Ramsay AC**

**Cadeirydd**

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

N Ramsay, AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

12 Rhagfyr 2019

Annwyl Mr Ramsay,

**Adroddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru: Llesiant Pobl Ifanc**

Diolch ichi am eich llythyr yn gofyn am ymateb Llywodraeth Cymru i'r meysydd gwelliant a amlinellwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar gryfhau'r dulliau o lunio polisïau a'u rhoi ar waith yng nghyd-destun pobl ifanc (Medi 2019).

Roeddwn yn falch o weld bod yr adroddiad yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithio ar ffyrdd o integreiddio ei dull gweithredu ei hun yn well, ac yn parhau i weithio gyda'r sector cyhoeddus i gydlynu gwasanaethau. Roedd yr adroddiad yn amserol gan ein bod yn cryfhau ac yn datblygu ein gallu i lunio polisïau yn Llywodraeth Cymru yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae tri maes cyffredinol yr adroddiad ar gyfer gwella - bod yn chwilfrydig; bod yn fwriadol; a bod yn ddewr - wedi'u hadlewyrchu yn y gwaith hwn ac rydym yn cydnabod llawer o'r farn ar gynnwys dinasyddion yn well a galluogi'r bobl hynny sy'n llunio polisïau a gwneud penderfyniadau i weithio mewn modd gwahanol. Mewn ymateb i'ch cais, mae'r llythyr hwn yn rhoi cipolwg ar rai o'r gweithgareddau yr ydym yn eu datblygu sy'n mynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Mae cynnwys pobl a chymunedau yn effeithiol wrth galon gwella llesiant yn awr ac yn y dyfodol. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi bod cynnwys yr amrywiaeth o bobl sy'n byw yng Nghymru mewn modd effeithiol yn un o'r pum ffordd y gall sefydliadau wneud penderfyniadau mwy cynaliadwy. Mae gwaith ar y

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan ● Website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding

gweill i archwilio dewisiadau ar gyfer platfform digidol a fyddai'n rhan o becyn ehangach o ddulliau gweithredu i gefnogi cydweithwyr yn y sefydliad wrth iddynt gynnwys a meithrin cysylltiadau â dinasyddion a rhanddeiliaid.

Mae ein gwaith i adolygu llunio polisïau yn Llywodraeth Cymru yn cynnwys datblygu Fframwaith Galluogrwydd Polisi Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys yr wybodaeth, y sgiliau a’r ymddygiad yr ydym yn eu disgwyl gan weithwyr polisi proffesiynol. Mae’r gwaith o ddatblygu’r fframwaith wedi edrych ar gynnwys ystod o briodoleddau sy'n berthnasol i adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol gan gynnwys y pum dull o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - meddwl am yr hirdymor; gweithredu i atal; sicrhau bod dinasyddion yn cael eu cynnwys; cydweithio a gweithio mewn modd integredig, yn ogystal â chynllunio polisïau ar gyfer gweithredu, er enghraifft, a bod yn fwy chwilfrydig ac arloesol.

Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, mae cyfres o sesiynau hyfforddiant peilot wedi'u darparu i sicrhau'r addysg a’r datblygiad angenrheidiol i gryfhau'r gallu i lunio polisïau a chyflawni gwaith y fframwaith. Bydd y rhain yn cyfrannu at Raglen Addysg Polisi a fydd yn cael ei lansio yn 2020. Aeth Uwch Weision Sifil Llywodraeth Cymru i sesiwn benodedig ar y fframwaith galluogrwydd polisi drafft yn ddiweddar a chawsant gyfle i brofi sesiynau blasu o rai o'r cyrsiau hyfforddiant a fydd yn rhan o'r rhaglen. Roedd yr adborth gan gydweithwyr yn gadarnhaol dros ben, gan gynnwys yr adborth ar y gwaith yn ymwneud â llunio polisïau arloesol a barn dinasyddion.

O ran integreiddio polisïau, mae’r Is-adran ar gyfer y Dyfodol a Llunio Polisïau Integredig yn adrodd i Bennaeth y Proffesiwn Polisi o ran galluogrwydd ym maes polisi. Rydym wedi penodi Uwch Weision Sifil o bob grŵp yn Llywodraeth Cymru i fod yn Eiriolwyr Polisi ac wedi ffurfio Grŵp Llywio Polisi; diben y grŵp hwn yw cefnogi gwelliant integredig ar draws y system gyfan o ran y galluogrwydd ym maes llunio polisïau a’u rhoi ar waith.

Ym mis Mai 2020, bydd Llywodraeth Cymru yn trefnu Cynhadledd Proffesiynau Polisi'r Pedair Gwlad yng Nghaerdydd, a fydd yn canolbwyntio ar Lesiant wrth Lunio Polisïau. Bydd cymuned uwch wneuthurwyr polisi y sector cyhoeddus a'r trydydd sector o bob rhan o'r DU yn dod ynghyd yn y gynhadledd i rannu arferion gorau, dysgu ffyrdd newydd o weithio a chreu rhwydweithiau i'r dyfodol.

Yn 2018, gwnaethom gyflwyno dull Asesiad Effaith Integredig i helpu ein cydweithwyr i gynnal asesiad cyflawn o effeithiau camau gweithredu arfaethedig, gan gynnwys yr effaith gymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol. Mae'r dull hwn yn cynnwys 17 o asesiadau effaith unigol ac mae wrthi'n cael ei adolygu ar hyn o bryd i sicrhau ei fod yn effeithiol ac yn addas at y diben.

Mae'r timau polisi sy'n gyfrifol am y meysydd penodol yn adroddiadau Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ymateb i'r canfyddiadau yng nghyd-destun llunio, gweithredu a darparu polisïau yn well, yn seiliedig ar fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r camau gweithredu a amlinellwyd uchod yn ein helpu i feddwl yn y tymor hir, cymryd camau ataliol, cydweithio, integreiddio a chynnwys eraill, sy'n mynd i'r afael â’r meysydd gwella penodol yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol. Mae Llywodraeth Cymru yn anfon neges glir ynghylch pwysigrwydd y newid diwylliant sy'n ofynnol gan y Ddeddf mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, a bydd hyn wedi'i ategu

ymhellach gan ddigwyddiad yr wyf yn ei gynnal i'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn y Ganolfan Gynadledda Ryngwladol ar 10 Ionawr, lle bydd y Prif Weinidog yn siarad.

Yn gywir,

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government